


# Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog
# Adroddiad Cyflwr y Parc 2014


© Michael Sinclair - Awyr Tywyll



'Mae'r ardaloedd a warchodir yn y byd, sy'n gorchuddio mwy na 12 y cant o arwyneb y tir ar hyn o bryd ar ffurf parciau cenedlaethol a gwarchodfeydd natur, yn darparu'r ffynhonnell unigol fwyaf o wasanaethau ecosystemau diogel ochr yn ochr â'u swyddogaethau mwy cydnabyddedig, sef cadwraeth bioamrywiaeth a hamdden. Mae'r ecosystemau naturiol mewn ardaloedd a warchodir yn darparu sicrwydd o fwyd; cyflenwadau dŵr rheolaidd, glân; lliniaru rhag trychinebau; dal a storio carbon; a chyfoeth o wasanaethau diwylliannol ac ysbrydol. Ond eto, pur anaml y mae trafodaethau am ardaloedd a warchodir yn canolbwyntio ar y gwasanaethau ecosystemau maent yn eu darparu ac y gallent elwa'n ariannol ohonynt.'[1]

Diogelir y mapiau yn yr adroddiad yma gan © Hawlfraint y Goron a cronfa ddata 2015, Arolwg Ordnans 100019322. Ni chaniateir i chwi gopio, tam-drwyddedu, dosbarthu neu werthu y data yma i unrhyw drydydd barti mewn unrhyw ffurf.

1 Parciau Cenedlaethol gyda Buddion: Sut Mae Diogelu Bioamrywiaeth y Blaned Hefyd yn Darparu Gwasanaethau Ecosystemau (http://www.thesolutionsjournal.com/mods/1008)

# Cynnwys


Tabl Dangosyddion ... 6
Cyflwyniad ... 8
Am y Parc ... 10
Perchnogaeth Tir ... 12
Proffil y Parc ... 13
Yr Awdurdod ... 16
Thema 1: Rheoli Tirluniau'r Parc i Sicrhau'r Manteision Cadwraeth a Chyhoeddus Gorau Posib
Crynodeb ... 18
Dangosydd 1: Asesiad Cymeriad Tirlun ... 20
Dangosydd 2: Treftadaeth Adeiledig ... 23
Henebion Rhestredig ... 24
Adeiladau Rhestredig ... 25
Dangosydd 3: Treftadaeth Ddaearegol ... 26
Thema 2: Gwarchod a gwella bioamrywiaeth
Crynodeb ... 28
Dangosydd 4: Cyflwr SoDdGAoedd Biolegol ... 30
Dangosydd 5: Ansawdd Dŵr ... 32
Dangosydd 6: Data Cynefin Cam 1 Wedi'u Diweddaru ... 36
Thema 3: Darparu Cyfleoedd am Fynediad a Hamdden Awyr Agored
Crynodeb ... 38
Dangosydd 7: % yr Hawliau Tramwy sy'n hawdd eu defnyddio ... 40
Dangosydd 8: Erydiad ar Lwybrau yn yr Ucheldir ... 44
Dangosydd 9: Boddhad Ymwelwyr ... 48




© Philip Veale - Pen y Fan & Cribyn




## Thema 4: Gwella Ymwybyddiaeth a Dealltwriaeth o'r Parc

Crynodeb ....50
Dangosydd 10: Nifer y Canolfannau Addysg Awyr Agored ....52
Dangosydd 11: Nifer yr Aneddiadau sy'n Elwa o Wybodaeth a/neu Banelau Gwybodaeth ....54
Dangosydd 12: Cymhareb Ymwelwyr Sy'n Aros: Ymwelwyr Dydd ....56

## Thema 5: Creu a Chynnal Cymunedau, Trefi a Phentrefi Cynaliadwy

Crynodeb ....58
Dangosydd 13: Risg o lifogydd, lefelau afonydd a newid hinsawdd ....60
- Risg o Lifogydd ....61
- Lefelau Afonydd ....62
- Newid Hinsawdd ....63

Dangosydd 14: Iechyd a Lles ....64
Dangosydd 15: Cymunedau sydd â Chynllun Pentref ac Asesiad Gofod Agored ....68
- Cynllun Cymunedol ....68
- Asesiad Gofod Agored ....68

## Thema 6: Datblygu Economaidd Cynaliadwy

Crynodeb ....70
Dangosydd 16: Tai Fforddiadwy Ychwanegol ....72
Dangosydd 17: Gweithgarwch Economaidd ....74
Dangosydd 18: Cyflogaeth yn ôl Math o Ddiwydiant ....78

## Atodiadau

Atodiad 1: Deuddeg egwyddor ar gyfer rheoli ardaloedd Categori V a warchodir ....80
Atodiad 2: Safleoedd Geoamrywiaeth o Bwysigrwydd Rhanbarthol ....81
Atodiad 3: Geirfa ....82



Pwrpas 1af

| Thema 1: Rheoli tirluniau'r parc i sicrhau'r manteision cadwraeth a chyhoeddus gorau posib | | |
|---|---|---|
| Dangosydd 1 | Dangosydd 2 | Dangosydd 3 |
| Asesiad cymeriad tirlun | Henebion rhestredig ac Adeiladau Rhestredig sy'n wynebu risg | Cyflwr safleoedd geoamrywiaeth o bwysigrwydd rhanbarthol |

2il Bwrpas

| Thema 3: Darparu cyfleoedd i bawb ar gyfer mynediad a hamdden yn yr awyr agored | | |
|---|---|---|
| Dangosydd 7 | Dangosydd 8 | Dangosydd 9 |
| % yr Hawliau Tramwy sy'n hawdd eu defnyddio | Erydiad ar lwybrau yn yr ucheldir | Boddhad ymwelwyr |

Dyletswydd


| Thema 5: Creu a chynnal cymunedau, trefi a phentrefi cynaliadwy | | |
|---|---|---|
| Dangosydd 13 | Dangosydd 14 | Dangosydd 15 |
| Risg o lifogydd, lefelau afonydd a newid hinsawdd | Iechyd a lles | Cymunedau sydd â chynllun pentref ac asesiad gofod agored |

| Thema 2: Gwarchod a gwella bioamrywiaeth | | |
|---|---|---|
| Dangosydd 4 | Dangosydd 5 | Dangosydd 6 |
| Cyflwr safleoedd o ddiddordeb gwyddonol arbennig biolegol | Ansawdd dŵr | Data cynefin cam 1 |

| Thema 4: Gwella ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o’r parc | | |
|---|---|---|
| Dangosydd 10 | Dangosydd 11 | Dangosydd 12 |
| Nifer y canolfannau addysg awyr agored | Nifer yr aneddiadau sy’n elwa o wybodaeth a/neu banelau gwybodaeth | Cymhareb o ymwelwyr sy’n aros v ymwelwyr dydd |

| Thema 6: Datblygu economaidd cynaliadwy | | |
|---|---|---|
| Dangosydd 16 | Dangosydd 17 | Dangosydd 18 |
| Darpau tai fforddiadwy | Gweithgarwch economaidd | Cyflogaeth yn ôl math o ddiwydiant |








# Cyflwyniad

Pwrpas Adroddiad Cyflwr y Parc (ACYP) yw cyflwyno darlun o gyflwr cyffredinol Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ac adrodd ar y cynnydd o ran rhoi Cynllun Rheoli 2010-2015 y Parc Cenedlaethol ar waith. Fel y Cynllun Rheoli, mae'n adroddiad ar gyfer y Parc Cenedlaethol a'r bobl sy'n byw ac yn gweithio yn y Parc ac yn ymweld ag ef, yn ogystal ag ar gyfer gwaith Awdurdod y Parc Cenedlaethol. Daeth chwe thema i'r amlwg ym mhroses ymgynghori'r Cynllun Rheoli, er mwyn datblygu a rhoi blaenoriaeth i gamau gweithredu. Mae'r rhain wedi cael eu hymgorffori fel nodau corfforaethol gan yr awdurdod. Maent yn datblygu 2 Bwrpas Statudol a Dyletswydd yr Awdurdod ac yn cyd-fynd yn agosach â'r Asesiad Amgylcheddol Strategol a'r egwyddorion rheoli ar gyfer Ardaloedd Categori V a Warchodir.

Mae gallu dirnad tueddiadau tymor hir a byr yr un mor bwysig â gwybod beth yw cyflwr presennol adnodd neu derfyn penodol yn y Parc Cenedlaethol, ac felly un nod pwysig yw penderfynu a yw'r Parc Cenedlaethol, yn ei hanfod, yn gwella neu'n gwaethygu. Yn yr adroddiad hwn ceir cyfresi data sydd wedi'u cyflenwi gan lefelau amrywiol yn y llywodraeth, gan fyd busnes a chan wahanol fathau o ymchwil.

Bydd rhai o ddangosyddion ac is-ddangosyddion y dyfodol yn deillio o ymchwil prifysgol ac mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol wedi llunio cytundebau prosbectws ymchwil gyda chyrff academaidd. Y gobaith yw y bydd y rhain yn dwyn ffrwyth i ddarparu dangosyddion ar gyfer cyhoeddiadau o'r adroddiad hwn yn y dyfodol. Bydd y prosiectau monitro parhaus hyn yn galluogi cynhyrchu diweddariadau yn y dyfodol wrth ddatblygu dulliau addas ar gyfer darparu data Adroddiad Cyflwr y Parc.

Mae'r Adroddiad Cyflwr y Parc hwn yn defnyddio dangosyddion sydd wedi'u strwythuro yn unol â chwe thema'r Cynllun Rheoli, sydd wedi deillio o Bwrpasau a Dyletswydd Awdurdod y Parc. Dangosir hyn yn Nhabl Cyflwyniad 1 isod:

| | |
|---|---|
| Thema 1: Rheoli tirluniau'r parc i sicrhau'r manteision cadwraeth a chyhoeddus gorau posib | Pwrpas 1af |
| Thema 2: Gwarchod a gwella bioamrywiaeth | |
| Thema 3: Darparu cyfleoedd i bawb ar gyfer mynediad a hamdden yn yr awyr agored | 2il Bwrpas |
| Thema 4: Gwella ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'rparc | |
| Thema 5: Creu a chynnal cymunedau, trefi a phentrefi cynaliadwy | Dyletswydd |
| Thema 6: Datblygu economaidd cynaliadwy | |

**Tabl Cyflwyniad 1: Themâu'r Cynllun Rheoli a Phwrpas/Dyletswydd**

Mae tri phrif ddangosydd wedi cael eu dewis ar gyfer pob un o themâu'r Cynllun Rheoli, gan roi cyfanswm o 18 o brif ddangosyddion ar gyfer Pwrpas Cyntaf ac Ail Bwrpas, a Dyletswydd, Awdurdod y Parc Cenedlaethol. Mae hyn yn sicrhau bod y Cynllun Rheoli'n cyd-fynd yn agosach â 12 Egwyddor yr Ardaloedd Categori V a Warchodir (atodiad 1) ac Asesiad Amgylcheddol Strategol y Cynllun Rheoli presennol.

Mae'r adroddiad yn esblygu o hyd a bydd ychwanegu dangosyddion neu is-ddangosyddion mewn cyhoeddiadau ohono yn y dyfodol yn arwain at ddealltwriaeth gyfoethocach a manylach o gyflwr y Parc o dan chwe thema'r Cynllun Rheoli.

Mae Tabl Cyflwyniad 2 isod yn datgan cyflwr pob thema yn seiliedig ar ddata'r dangosyddion yn yr adroddiad hwn. Ar hyn o bryd, mae gan y system sgorio ystod o bedair safon, Gwael, Gweddol, Da a Rhagorol. Felly, os yw mwyafrif y dangosyddion mewn thema'n dangos tuedd gadarnhaol, bydd y sgôr naill ai'n dda neu'n rhagorol, gan ddibynnu ar ba mor gadarnhaol yw'r duedd yn y dangosyddion. Mae'r un peth yn berthnasol os dangosir tuedd negyddol – bydd y sgôr yn wael, ac os dangosir tuedd debyg, bydd y sgôr yn weddol. Mae hyn yn darparu gwybodaeth grai am gyflwr cyffredinol thema benodol yn y Cynllun Rheoli. Ceir rhagor o wybodaeth drwy ddangosyddion/is-ddangosyddion penodol.

Mae'r system sgorio'n eithaf goddrychol ar hyn o bryd ac mae'n fwriad gennym i gyhoeddiadau o Adroddiad Cyflwr y Parc yn y dyfodol ddatblygu system sgorio sy'n fwy gwyddonol a chyson ym mhob un o'r dangosyddion.

| Thema'r Cynllun Rheoli | Cyflwr |
|---|---|
| Thema 1: Rheoli tirluniau'r parc i sicrhau'r manteision cadwraeth a chyhoeddus gorau posib | Da |
| Thema 2: Gwarchod a gwella bioamrywiaeth | Da |
| Thema 3: Darparu cyfleoedd i bawb ar gyfer mynediad a hamdden yn yr awyr agored | Da |
| Thema 4: Gwella ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r parc | Gweddol |
| Thema 5: Creu a chynnal cymunedau, trefi a phentrefi cynaliadwy | Da |
| Thema 6: Datblygu economaidd cynaliadwy | Gweddol |

**Tabl Cyflwyniad 2: Themâu'r Cynllun Rheoli a'u Cyflwr**

Mae'n fwriad cyhoeddi diweddariadau o'r adroddiad unwaith bob tair blynedd o leiaf a chyhoeddir yr adroddiad nesaf yn 2017. Ni fydd pob dangosydd yn cael ei ddiweddaru oddi mewn i'r amserlen hon, gan fod rhai dangosyddion yn ddarostyngedig i adolygiadau mwy cyfnodol nag eraill.

2 Mae ardal a warchodir yn ofod daearyddol sydd wedi'i ddiffinio'n bendant ac sy'n cael ei gydnabod, ei ymrwymo a'i reoli, drwy ddulliau cyfreithiol a dulliau effeithiol eraill, i gyflawni cadwraeth tymor hir y byd natur sydd â gwasanaethau ecosystemau a gwerthoedd diwylliannol cysylltiedig. (Diffiniad IUCN yn 2008)

# Am y Parc

Mae Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn cynnwys rhai o'r tirffurfiau mwyaf trawiadol a nodedig yn ucheldir de Prydain. Er gwaetha'i enw, mae'r Parc Cenedlaethol yn cynnwys llawer mwy na dim ond Bannau Brycheiniog. Mae hefyd yn cynnwys Y Mynyddoedd Duon, Y Mynydd Du a'r Fforest Fawr.

Mae'r Parc yn 520 milltir sgwâr (1346 cilometr sgwâr) ac wedi'i leoli rhwng Canolbarth gwledig Cymru a Chymoedd diwydiannol De Cymru. Mae'r tirlun yn amrywiol, gyda'r ucheldir eang yn gwrthgyferbynnu â'r cymoedd gwyrdd, y rhaeadrau dramatig, y coetir hynafol, ogofâu, coedwigoedd a chronfeydd dŵr. Yn sylfaen i'r rhan fwyaf o'r Parc mae creigiau Hen Dywodfaen Coch o'r oes Ddefonaidd.

Bu rhewlif yn y Parc yn ystod yr Oes Iâ ddiwethaf ac mae gwerth treftadaeth Gwyddoniaeth Pridd y Parc wedi cael ei gydnabod gan y Rhwydwaith Geoparc Ewropeaidd/ UNESCO, a ddyfarnodd statws Geoparc i Geoparc Fforest Fawr ym mis Hydref 2005. Mae'r Geoparc yn cynnwys hanner gorllewinol Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog i gyd. Hwn oedd y Geoparc cyntaf yng Nghymru a'r Geoparc cyntaf yn unrhyw Barc Cenedlaethol yn y DU.

Yn 2013, cafodd ansawdd yr awyr yn y nos uwch ben y Parc Cenedlaethol ei gydnabod gan y Gymdeithas Ryngwladol ar gyfer Awyr Dywyll, a ddyfarnodd y dylid ei ddynodi'n bumed Cronfa Awyr Dywyll y byd. Mae'r statws hwn yn dynodi diffyg llygredd golau a chanran uchel o awyr glir. Gwnaed y cais am y statws drwy bartneriaeth rhwng Awdurdod y Parc Cenedlaethol a Chymdeithas Parc Bannau Brycheiniog (grŵp aelodaeth a sefydliad elusennol annibynnol). Mae llawer o fusnesau twristiaeth ledled y Parc wedi croesawu ac elwa o'r cysyniad ac maent yn cynnig pecynnau gwylio'r sêr a gwybodaeth am hyn i'w gwesteion.

Mae gan y Parc Cenedlaethol lawer o gynefinoedd cyfoethog ar gyfer bywyd gwyllt ond does dim un rhan o'r Parc heb ei heffeithio gan ymyrraeth dyn. Mae'r rhan fwyaf o'r tir yn y Parc Cenedlaethol yn dir amaethyddol, gan gynnwys caeau â gwrychoedd o'u hamgylch a thir comin yr ucheldir (cyfuniad o gronfeydd dŵr, llynnoedd a choetir yw'r gweddill yn bennaf). Gellir gweld hanes a dylanwad dyn ym mhob man yma; y carneddi Neolithig hirion, y bryngeyrydd o'r Oes Haearn, y ffyrdd Rhufeinig a'r cestyll Normanaidd, y chwareli a'r gweithfeydd haearn segur, y coedydd a'r planhigfeydd fforest a reolir, yr hen reilffyrdd, camlas a chronfeydd dŵr, a hefyd llawer o ffermydd, pentrefi a threfi marchnad bychain.



© Philip Veale - Maen Llia





Mae'r Parc yn gartref i fwy na 33,000 o bobl ac mae ganddo dreftadaeth Gymreig gadarn a bywyd economaidd, cymdeithasol a diwylliannol cyfoethog. Yr anheddiad mwyaf yw tref gadeirlan Aberhonddu, sydd â phoblogaeth o 8,250 (Cyfrifiad 2011), cynnydd o 4.4% ar ddata 2001 (7,904). Mae Aberhonddu'n dref farchnad brysur ac yn ganolfan weinyddol bwysig i Gyngor Sir Powys a'r Weinyddiaeth Amddiffyn, yn ogystal ag Awdurdod y Parc Cenedlaethol.

Mae oddeutu 4.1 miliwn o ymwelwyr yn dod i Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog bob blwyddyn i fwynhau'r tirlun bythgofiadwy hwn. Mae'r mynyddoedd, yr ucheldir a'r cymoedd yn dir cerdded rhagorol ac ymhlith y gweithgareddau eraill sydd ar gael yma mae marchogaeth ceffylau, beicio a beicio mynydd a gweithgareddau dŵr. Ceir atyniadau twristaidd mawr a gwyliau a dathliadau o fwyd a gynhyrchir yn lleol. Mae llawer yn dod yma hefyd i fwynhau pleserau syml bywyd; myfyrio, gweld yr atyniadau amrywiol, mynd am dro neu ddim ond mwynhau'r olygfa.

3 http://www. beacons-npa.gov.uk/the-authority/working-in-partnership/tourism-new/visitor-management-plan-draft




# Perchnogaeth Tir

Mae'r rhan fwyaf o dir y Parc Cenedlaethol yn eiddo preifat i berchnogion stadau, ffermwyr a pherchnogion tai, sydd felly'n rheoli mwyafrif y tirlun hefyd. Ceir sawl perchennog tir cyhoeddus ac elusennol mawr hefyd. Mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol ei hun yn berchen ar 14% o'r tir, y tir comin yn yr ucheldir yn bennaf, a brynwyd gyda help grantiau i'w warchod er budd y cyhoedd.  Mae hawliau pori hanesyddol yn gysylltiedig â'r tir hwn ac mae gan lawer o'r rhai sydd â thir yn ffinio â'r tir comin hawl i roi eu stoc ar yr ucheldiroedd.


© Philip Veale - Talybont Cronfa Ddŵr

# Proffil y Parc

**Demograffeg**
Mae Graff Proffil 1 isod yn dangos bod cyfran lai o gyfanswm poblogaeth Parciau Cenedlaethol Cymru a Lloegr yn y grwpiau oedran 45 oed ac iau yn 2011, a chyfran uwch yn y grwpiau oedran dros 45. Mae'r ffigurau hyn yn dynodi strwythur oedran hŷn y boblogaeth sy'n byw yn y parciau cenedlaethol o gymharu â'r strwythur cenedlaethol, gydag oedran canolrifol o 50, 11 mlynedd yn hŷn na'r oedran canolrifol cenedlaethol, sef 39 (Cyfrifiad - Y Swyddfa Ystadegau Gwladol).




**Graff Proffil 1: Oedran y trigolion arferol (Ffynhonnell Data Cyfrifiad ONS 2011)**




**Graff Proffil 2: Y newid canran ym maint y boblogaeth o drigolion arferol yn ôl oedran (Ffynhonnell Data Cyfrifiad ONS 2011)**


Mae Graff Proffil 2 isod yn dangos mai dim ond un Parc Cenedlaethol yng Nghymru a Lloegr a brofodd gynnydd rhwng 2001 a 2011 yn y grŵp oedran 0 i 14 oed. Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog welodd y cynnydd mwyaf yng nghanran y bobl 15 i 29 oed (sef 9.0 y cant).

Mae disgwyl i boblogaeth Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog gynyddu o 32,700 yn 2008 i oddeutu 33,300 yn 2023, cynnydd o 2.0 y cant. Sbardunir y cynnydd mewn poblogaeth a ddisgwylir ym Mharciau Cenedlaethol Cymru gan y mewnfudo o rannau eraill o Gymru a'r DU. Mae disgwyl i nifer y marwolaethau fod yn uwch na nifer y genedigaethau (newid naturiol negyddol) drwy gydol y cyfnod o ragdybio ac ym mhob Parc Cenedlaethol. Y rheswm am hyn yw proffiliau oedran hŷn poblogaethau'r Parciau Cenedlaethol o gymharu ag ardaloedd eraill. Mae disgwyl i holl Barciau Cenedlaethol Cymru brofi cynnydd arwyddocaol yn y boblogaeth 65 oed a hŷn, a gostyngiad yn y boblogaeth dan 65 oed.[4]

Fel rhan o'r Cyfrifiad (2011), gofynnwyd i'r trigolion arferol[5] asesu cyflwr eu hiechyd yn gyffredinol ar raddfa bum pwynt: da iawn, da, gweddol, gwael neu wael iawn.

Mae Graff Proffil 3 isod yn dangos bod mwyafrif trigolion y parc cenedlaethol, sef 82%, yn dweud eu bod mewn iechyd da, neu dda iawn. Mae'r ganran hon ychydig yn uwch nag ar gyfer Cymru a Lloegr yn gyffredinol. O gofio bod gan y parciau cenedlaethol strwythur oedran hŷn na'r strwythur cenedlaethol, a bod iechyd, yn gyffredinol, yn dirywio gydag oedran, mae hyn yn dynodi bod y bobl sy'n byw mewn parciau cenedlaethol yn eu gweld eu hunain mewn gwell iechyd na'r rhai sy'n byw yng ngweddill y wlad (Cyfrifiad - Y Swyddfa Ystadegau Gwladol).

* Amcangyfrifwyd poblogaeth 2001 New Forest a South Downs drwy ddefnyddio "Output Areas Best Fit Lookup" Cyfrifiad 2001 drwy ddosbarthu y boblogaeth yn ôl rhyw gan nad oedd yr ardaloedd yma wedi eu dynodi yn barciau cenedlaethol yn 2001.




**Graff Proffil 3: Iechyd Cyffredinol (Ffynhonnell Data Cyfrifiad ONS 2011)**

Mae Tabl Proffil 1 isod yn cymharu prisiau tai yn y Parc Cenedlaethol ac yn Sir Powys rhwng 2011 a 2012. Cynhaliwyd adolygiad o brisiau tai mewn Parciau Cenedlaethol gan Fanc Lloyds yn 2012.[6] Bu'n cofnodi symudiadau prisiau tai mewn 12 Parc Cenedlaethol ledled Cymru a Lloegr ac roedd yn seiliedig ar ddata gan y Gofrestrfa Dir. Mae'n dangos bod prisiau'r tai sydd wedi'u lleoli ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog 8% yn uwch ar gyfartaledd na'r pris ar gyfer gweddill y Sir (i lawr 10% ar y ffigur cyfatebol ar gyfer 2011).

| | Pris yn y parc cenedlaethol ar gyfartaledd (£) | Pris y sir ar gyfartaledd (£) | Gwahaniaeth |
|---|---|---|---|
| **2011** | 210,356 | 177,962 | +18 % |
| **2012** | 193,658 | 178,860 | +8 % |

**Tabl Proffil 1: Prisiau Tai Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog a Phrisiau Tai'r Sir**



4 http://wales.gov.uk/statistics-and-research/population-projections-national-parks/?lang=en

5 Fel rheol, man preswylio arferol person yw ei gyfeiriad yn y DU lle mae'n treulio mwyafrif ei amser. I'r rhan fwyaf o bobl, eu cartref parhaol neu deuluol fydd hwn (Diffiniadau Poblogaeth Terfynol ar gyfer Cyfrifiad 2011 - Hydref 2009).


6 http://www.lloydsbankinggroup.com/globalassets/documents/media/press-releases/lloyds-bank/2012/0408_parks.pdf

© Philip Veale - Bannau Brycheiniog

# Yr Awdurdod




**Siart Cylch Proffil 1: Incwm Awdurdod y Parc Cenedlaethol (2012/2013)**




**Siart Cylch Proffil 2: Gwariant Awdurdod y Parc Cenedlaethol (2012/2013)**

Mae Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog fel ardal ddaearyddol yn perthyn i ardaloedd gweinyddol 9 o'r 22 Awdurdod Unedol yng Nghymru. Awdurdod y Parc Cenedlaethol yw'r awdurdod cynllunio a hawliau tramwy ar gyfer ardal y Parc Cenedlaethol ond mae'r Awdurdodau Unedol cysylltiedig yn cadw'r cyfrifoldeb am yr holl wasanaethau llywodraeth leol eraill yn eu hardaloedd 'hwy' o'r Parc. Felly, mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn gweithio mewn partneriaeth agos â'r awdurdodau hyn ac mae pawb sydd â phoblogaethau oddi mewn i ffiniau daearyddol y Parc Cenedlaethol yn penodi Aelodau i wasanaethu ar fwrdd yr Awdurdod.

Mae'r siartiau canlynol (Siart Cylch Proffil 1 a Phroffil 2) yn dangos crynodeb ariannol o incwm a gwariant Awdurdod y Parc Cenedlaethol.



Wrth gyflawni ei bwrpasau a'i ddyletswyddau, mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn gweithio gydag amrywiaeth o gymunedau a phobl sy'n byw ac yn gweithio yn y Parc Cenedlaethol ac Ymwelwyr â'r ardal. Mae gan y Parc Cenedlaethol dîm o wardeiniaid sy'n gofalu am dir yr Awdurdod ei hun a'r hawliau tramwy ar draws y Parc. Yn aml iawn, y wardeiniaid yw'r staff amlycaf i'r cyhoedd ac maent yn cyflawni gwasanaethau amrywiol, gan gynnwys gweithio gyda pherchnogion tir eraill a ffermwyr, gyda grwpiau ysgolion ac ymwelwyr. Mae'r rhai sy'n gwasanaethu'r cymunedau lle ceir mwy o siaradwyr Cymraeg yn cynnig eu gwasanaeth yn y Gymraeg. Mae'r Awdurdod yn darparu pedair canolfan i ymwelwyr mewn partneriaeth â sefydliadau eraill a Chynghorau. Mae ganddo wasanaeth allgymorth Addysgol sy'n gweithio mewn ysgolion yn y Gymraeg a'r Saesneg.


Mae'r tîm twristiaeth yn gweithio mewn partneriaeth â busnesau sy'n gweithio gydag Ymwelwyr. Mae eu gwaith yn cynnwys partneriaeth gyda'r sefydliad twristiaeth lleol i greu gwefan sy'n hybu busnesau lleol. Mae hefyd yn cynnwys rhaglenni hyfforddi i helpu busnesau twristiaeth i wella eu gwaith marchnata a gweithio mor gynaliadwy â phosib. Hefyd mae'n cynnwys cynllun hyfforddi Llysgenhadon poblogaidd i alluogi unigolion i ddysgu mwy am agweddau amrywiol ar y Parc Cenedlaethol, a chynnig croeso sy'n cynnwys mwy o wybodaeth i ymwelwyr.

Yn 2012/13, elwodd Awdurdod y Parc Cenedlaethol o fwy na 10,000 o oriau gan wirfoddolwyr. Mae gwirfoddolwyr yn gwneud gwaith amhrisiadwy ledled y Parc Cenedlaethol gydag amrywiaeth o weithgareddau, gan gynnwys gwaith gyda wardeiniaid ar y tir ac yn y Canolfannau Ymwelwyr a Pharc Gwledig Craig-y-Nos.

Mae gwirfoddoli o fudd i'r ddwy ochr. Ceir hefyd fanteision arwyddocaol i'r gwirfoddolwyr eu hunain. Gall y rhain gynnwys manteision iechyd, dysgu a darganfod sgiliau newydd, datblygu rhwydweithiau cymdeithasol gyda phobl o'r un anian, neu ddim ond teimlo eu bod yn 'rhoi rhywbeth yn ôl' i'w cymuned, gan arwain yn aml at ymdeimlad cynyddol o les.

Fel yr Awdurdod Cynllunio ar gyfer y Parc Cenedlaethol, mae tîm Rheoli Datblygiadau'r Awdurdod wedi gwneud gwelliannau sylweddol i'w wasanaeth ac, yn ystod y 12 mis diwethaf, mae wedi symud yn llwyddiannus o waelod tabl cynghrair Llywodraeth Cymru i'r chwartel uchaf. Mae'r Awdurdod wedi datblygu ei adnodd ar gyfer Treftadaeth. Mae Adran Polisi a Strategaeth yr Awdurdod wedi llunio ac wedi ymgynghori ar Gynllun Datblygu Lleol newydd (dyfais statudol y mae'r Awdurdod yn ei defnyddio i lywio penderfyniadau datblygu), a fabwysiadwyd gan yr Awdurdod ym mis Rhagfyr 2013.

© Nigel Forster - Dyffryn Crawnon



# Thema 1:

## Rheoli Tirluniau'r Parc i Sicrhau'r Manteision Cadwraeth a Chyhoeddus Gorau Posib

Cyffredinol:

**Da**

Dyma'r dangosyddion sy'n cynrychioli'r thema hon:

- **Dangosydd 1:** Asesiad Cymeriad Tirlun
- **Dangosydd 2:** Treftadaeth Adeiledig
- **Dangosydd 3:** Cyflwr safleoedd geoamrywiaeth o bwysigrwydd rhanbarthol

Mae'r Asesiad Cymeriad Tirlun yn asesu 15 o ardaloedd cymeriad tirlun. Fel y gellir disgwyl mewn ardal Categori V o dirlun a warchodir, mae cyflwr cyffredinol mwyafrif yr ardaloedd cymeriad yn dda iawn.

Mae'r Dreftadaeth Adeiledig yn y Parc wedi gwella'n sylweddol ers 2006. Mae nifer yr Henebion Rhestredig a'r Adeiladau Rhestredig yn y Parc sy'n wynebu risg wedi gostwng ac mae cyfanswm yr Henebion Rhestredig a'r Adeiladau Rhestredig yn y Parc wedi cynyddu'n sylweddol. Felly, mae cyflwr y dreftadaeth adeiledig yn y parc yn dda.

Mae nifer y safleoedd geoamrywiaeth sydd wedi'u dynodi ac o bwysigrwydd rhanbarthol yn y Parc wedi cynyddu'n sylweddol ers 2006. Mae cyflwr y safleoedd yn dda iawn yn gyffredinol ac mae grŵp gweithredu wedi cael ei sefydlu i fonitro'r safleoedd, i sicrhau eu bod yn cael eu gwarchod yn y tymor hir ac i helpu gyda'u cynnal a'u cadw, yn ôl yr angen.

Gan ddefnyddio'r tri dangosydd hyn i asesu'r cyflwr cyffredinol (Gwael, Gweddol, Da neu Ragorol), mae cyflwr y parc yng nghyd-destun Thema 1 y Cynllun Rheoli yn DDA.




© Philip Veale - Y Fenni

# Dangosydd 1:
## Asesiad Cymeriad Tirlun

Prif amcan y tirluniau Categori V a warchodir yw gwarchod a chynnal tirluniau pwysig a'r gwerthoedd cadwraeth natur cysylltiedig a'r gwerthoedd eraill sydd wedi'u creu drwy ryngweithio â phobl gan ddefnyddio arferion rheoli traddodiadol. Mae'r Asesiad Cymeriad Tirlun yn datgan pum math eang o dirlun a 15 o Ardaloedd Cymeriad Tirlun ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog [7]. Gellir gweld yr ardaloedd ar Fap LCA1.

Disgrifir lleoliad, cyd-destun, datblygiad hanesyddol, nodweddion arbennig, aneddiadau, golygfeydd allweddol, rhinweddau arbennig a sensitifrwydd pob Ardal Cymeriad Tirlun a'u cyfraniad at wasanaethau ecosystemau a'r seilwaith gwyrdd a'r grymoedd ar gyfer newid y tirlun. Mae proffil pob Ardal Cymeriad Tirlun yn datgan meysydd agwedd ac yn gorffen gyda strategaeth reoli a chanllawiau rheoli a argymhellir i warchod a chryfhau cymeriad ei thirlun.




**Map LCA1: Ardaloedd Cymeriad Tirlun Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog**

7 I gael rhagor o wybodaeth ewch i http://www.beacons-npa.gov.uk/

8 LANDMAP – Cyfres ddata gyson ledled Cymru a baratowyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru – ewch i http://www.ccw.gov.uk/landmap

Dyma ddangosydd newydd ar gyfer Adroddiad Cyflwr y Parc 2014 ac mae'n defnyddio data Gweledol a Synhwyraidd LANDMAP,[8] o'r Asesiad Cymeriad Tirlun, sy'n pennu safleoedd i bob maes agwedd gan ddefnyddio'r meini prawf canlynol:

E – Eithriadol: o bwysigrwydd rhyngwladol

U – Uchel: o bwysigrwydd rhanbarthol neu sirol

C – Cymedrol: o bwysigrwydd lleol

I – Isel: ddim yn bwysig iawn/o gwbl

Mae'r adroddiad hwn yn gosod pob maes agwedd fel a ganlyn:

E – 4 pwynt

U – 3 phwynt


C – 2 bwynt

I – 1 pwynt

Rhoddir sgôr ar gyfartaledd ar gyfer pob Ardal Cymeriad Tirlun, fel y dangosir yn Nhabl 1.

| Ardal | Sgôr |
|---|---|
| Ardal 1 – Godre Bryniau Dyffryn Tywi (Iseldir) | 2.8 |
| Ardal 2 – Y Mynydd Du (Ucheldir) | 3.7 |
| Ardal 3 – Fforest Fawr (Ucheldir) | 3.1 |
| Ardal 4 – Gwlad y Rhaeadrau a Chymoedd y De (Cymoedd yr Ucheldir) | 2.3 |
| Ardal 5 – Is-afonydd Gorllewinol y Wysg (Cymoedd yr Ucheldir) | 2.7 |
| Ardal 6 – Cymoedd Canol y Wysg (Cymoedd Aneddiadau) | 2.4 |
| Ardal 7 – Canolbarth y Bannau (Ucheldir) | 4 |
| Ardal 8 – Cymoedd Cronfeydd Dŵr Talybont a Thaf (Cymoedd yr Ucheldir) | 3 |
| Ardal 9 – Mynyddoedd Llangatwg a Llangynidr (Ucheldir) | 2.7 |
| Ardal 10 – Ceunant Clydach (Cymoedd Aneddiadau) | 2.3 |
| Ardal 11 – Cymoedd Dwyreiniol y Wysg (Cymoedd Aneddiadau) | 2.9 |
| Ardal 12 – Ysgyryd a Dinas y Bwlch (Mynyddoedd a Chymoedd) | 3.2 |
| Ardal 13 – Y Mynyddoedd Du (Mynyddoedd a Chymoedd) | 3.3 |
| Ardal 14 – Godre Bryniau Dyffryn Gwy (Iseldir) | 3.1 |
| Ardal 15 – Bryniau a Llethrau Blorenge (Mynyddoedd a Chymoedd) | 3.2 |

**Tabl 1: Ardaloedd Cymeriad Tirlun a'u Sgôr**




**Graff 1: Ardaloedd Cymeriad Tirlun a'u Safle Golau Traffig**

Mae Graff 1 yn dangos y canlyniadau mewn ffurf darluniadol ac yn arosod y model golau traffig dros y graff. Mae Ardal Cymeriad Tirlun sydd â sgôr

**rhwng 1 ac 1.9 yn sgorio COCH,**

**rhwng 2 a 2.9 yn sgorio OREN**

**rhwng 3 a 3.9 yn sgorio GWYRDD.**

Mae Graff 1 yn dangos bod 8 Ardal Cymeriad Tirlun yn wyrdd, 7 yn oren ac mae'n braf iawn gweld nad oes 0 yn goch. Mae hefyd yn galonogol bod mwyafrif yr ardaloedd yn safle gwyrdd y golau traffig.

Y sgôr tirlun cyffredinol ar gyfer Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yw gwyrdd oherwydd mae'r Asesiad Cymeriad Tirlun yn manylu arno fel Parc mewn cyflwr da iawn. Bydd y strategaethau rheoli sydd wedi'u datgan yn yr Asesiad Cymeriad Tirlun yn helpu gyda chynnal ei gyflwr a dylai godi'r sgoriau unigol sydd wedi'u priodoli gan gynllun dosbarthu Gweledol a Synhwyraidd LANDMAP, fel y gwelir yn Nhabl 1 uchod.



© Nigel Forster - Castell Aberhonddu

# Dangosydd 2:
## Treftadaeth Adeiledig

Mae gan Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog hanes maith a lliwgar, a threftadaeth ddiwylliannol gyfoethog ac amrywiol. Er bod llawer yn dychmygu nad yw tirlun Bannau Brycheiniog wedi'i ddifetha, a'i fod yn naturiol iawn, mae pobl wedi dylanwadu ar y tirlun hwn, a'i newid, dros filoedd lawer o flynyddoedd.

Gwelwn y waddol y mae pobl y gorffennol wedi'i gadael i ni ledled y Parc Cenedlaethol yn ein treftadaeth archeolegol gyfoethog ac yn yr adeiladau a'r aneddiadau hanesyddol.

## Henebion Rhestredig

Mae Henebion Rhestredig yn safleoedd archeolegol o bwysigrwydd cenedlaethol a warchodir rhag newid heb ei reoli neu ei drwyddedu. Gall Henebion Rhestredig oroesi fel gweddillion archeolegol uwch ben y ddaear, ar ffurf daearwaith neu weddillion, fel gweddillion archeolegol o dan y ddaear yn llwyr, neu fel cymysgedd o'r ddau.

Nid oes raid i archeoleg fod o oedran penodol i fod yn rhestredig ac mae safleoedd o gyfnod cynhanes hyd at enghreifftiau'n dyddio o gyfnod yr Ail Ryfel Byd wedi cael eu rhestru. Maent o bob siâp a maint, o garneddi claddu unigol o'r Oes Efydd i safleoedd diwydiannol mawr iawn. Dim ond yr enghraifft orau o bob math o heneb a restrir, a dewisir y safleoedd yn seiliedig ar feini prawf fel cyflwr, prinder, graddfa'r goroesi, breguster a gwerth fel grŵp.

Nid yw pob safle archeolegol o bwysigrwydd cenedlaethol yn rhestredig. Dim ond os mai dyma'r dull gorau o warchod y safle y rhestrir safle archeolegol. Nid yw mwyafrif y safleoedd archeolegol ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog wedi'u rhestru. Nid yw hyn yn golygu nad yw'r safleoedd yma'n bwysig, ac mae'n rhaid eu deall yn dda, a'u rheoli a'u gwarchod yn ofalus i genedlaethau'r presennol a'r dyfodol eu mwynhau.

Mae Henebion Rhestredig wedi cael eu monitro gan Cadw ers 1975. Ceir rhagor o wybodaeth am Henebion Rhestredig a sut maent yn cael eu gwarchod yn http://cadw.wales.gov.uk. Mae statws yr Heneb yn ymwneud â'r newid yn ei chyflwr ers yr adroddiad diwethaf. [9]

Yn 2006 roedd 268 o Henebion Rhestredig yn y Parc. O blith y rhain, roedd 95.9% mewn cyflwr sefydlog neu ffafriol (257).


Yn 2014 ceir 357 o Henebion Rhestredig yn y Parc – cynnydd o 89 ers 2006. O blith y 357 yn y Parc, mae 95.5% mewn cyflwr sefydlog neu ffafriol (341).

O blith y 357 o Henebion Rhestredig presennol, mae:

- 329 (92%) mewn cyflwr 'Sefydlog'
- 11 (3.0%) mewn cyflwr 'Gwell'
- 1 (0.3%) mewn cyflwr 'Llawer gwell'
- Felly ceir 341 o Henebion Rhestredig (95.5%) mewn cyflwr sefydlog neu ffafriol
- Ceir 3 (0.8%) y mae eu cyflwr yn anhysbys ar hyn o bryd. Gallai hyn fod am resymau amrywiol, sy'n cynnwys tywydd gwael yn atal gallu cynnal arolwg neu hyd yn oed fethu dod o hyd i'r safle.
- 13 (3.6%) mewn cyflwr sydd 'Wedi gwaethygu'

Yn 2014, ceir canran ychydig yn is (0.4%) o Henebion Rhestredig mewn cyflwr sefydlog neu ffafriol. Er nad yw'r ffigur hwn yn uchel, mae'n werth nodi bod 89 o henebion wedi'u rhestru ers 2006, sy'n golygu bod cyfanswm uwch yn awr o Henebion Rhestredig mewn cyflwr sefydlog neu ffafriol.

Mae Siart Cylch BH1 isod yn dangos nifer a chyflwr yr Henebion Rhestredig yn y Parc yn 2014.




**Siart Cylch BH 1: Cyflwr yr Henebion Rhestredig yn y Parc Cenedlaethol yn 2014**

9 **Cyflwr gwell** – gwelliant amlwg yn y cyflwr ers yr archwiliad diwethaf, o ganlyniad i reolaeth barhaus fel rheol;

**Cyflwr sefydlog** – nid yw'r heneb yn dangos unrhyw arwydd o ddirywiad gweithredol, yn ddiweddar nac yn y tymor canolig


**Cyflwr gwaeth** – yr heneb wedi dirywio o ganlyniad i ddifrod parhaus

**Cyflwr anhysbys** – Nid yw'n bosib asesu tuedd cyflwr y gwneuthuriad gan na chynhaliwyd asesiad maes yn ddiweddar neu mae'n anhysbys

## Adeiladau Rhestredig


Mae adeilad rhestredig yn adeilad sydd wedi'i osod ar Restr Statudol o Adeiladau o Ddiddordeb Pensaernïol neu Hanesyddol Arbennig. Dim ond gyda chaniatâd arbennig gan yr awdurdod cynllunio lleol y gellir dymchwel, ymestyn neu addasu'r adeiladau hyn. Er mwyn penderfynu a ddylid dyfarnu caniatâd, mae'r Awdurdod Cynllunio perthnasol yn ymgynghori fel rheol â'r asiantaeth briodol yn y llywodraeth ganolog - yn achos Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, Cadw yw'r asiantaeth hon. Adeiladau yw'r rhan fwyaf o'r strwythurau ar y rhestr, ond gellir rhestru llawer o fathau eraill o strwythurau - fel pontydd, cofadeiladau, cerfluniau, cofgolofnau rhyfel a hyd yn oed cerrig milltir a physt milltir.

Mae Siart Cylch BH2 isod yn dangos bod 1,711 o adeiladau rhestredig yn 2006. O blith y rhain, nid oedd 1,520 yn wynebu risg ac roedd 191 yn wynebu risg (11%).





**Siart Cylch BH 2: Adeiladau Rhestredig a oedd yn wynebu Risg ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn 2006**

Mae Siart Cylch BH3 isod yn dangos bod 1,950 o Adeiladau Rhestredig yn 2014. O blith y rhain, nid yw 1821 yn wynebu risg ac mae 129 (6.6%) yn wynebu risg. Felly, yn 2014, ceir 239 yn rhagor o adeiladau rhestredig o gymharu â 2006. Fodd bynnag, mae nifer yr adeiladau rhestredig sy'n wynebu risg wedi gostwng 62 ers 2006.




**Siart Cylch BH 3: Adeiladau Rhestredig sy'n wynebu Risg ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ar hyn o bryd**

# Dangosydd 3:
## Treftadaeth Ddaearegol




**Siart Cylch GH 1: Cyflwr y Safleoedd Geoamrywiaeth o Bwysigrwydd Rhanbarthol (2014)**

Mae Safleoedd Geoamrywiaeth o Bwysigrwydd Rhanbarthol yn safleoedd sydd wedi'u dynodi ac sydd o bwysigrwydd lleol, cenedlaethol a rhanbarthol i geoamrywiaeth (daeareg a geomorffoleg). Ceir cyfanswm o 76 o Safleoedd Geoamrywiaeth o Bwysigrwydd Rhanbarthol yn y Parc, sydd wedi cynyddu o 11 yn 2006. Hwyluswyd y broses ddynodi drwy sefydlu Geoparc Fforest Fawr.

Mae mwyafrif y safleoedd mewn cyflwr da (67%), gydag 83% o'r safleoedd mewn cyflwr da neu ragorol. Mae 92% o'r safleoedd mewn cyflwr sefydlog o leiaf ac 8% o'r safleoedd naill ai mewn cyflwr gwael neu'n dirywio. Mae Siart Cylch GH1 yn rhoi dadansoddiad gweledol o gyflwr y safleoedd hyn.


Data Cyflwr y Safleoedd Geoamrywiaeth o Bwysigrwydd Rhanbarthol 2006:

| | |
|---|---|
| Rhagorol | 0 |
| Da | 11 |
| Sefydlog | 0 |
| Dirywio | 0 |
| Gwael | 0 |

DA: Mae pob un o'r 11 o Safleoedd Geoamrywiaeth o Bwysigrwydd Rhanbarthol a gafodd eu datgan yn y Parc Cenedlaethol yn 2006 yn parhau mewn cyflwr 'Da' yn 2014.



© Nigel Forster - Bannau Brycheiniog




**Map GEO 1: Safleoedd Geoamrywiaeth o Bwysigrwydd Rhanbarthol yn y Parc Cenedlaethol**

Mae'r data, a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru drwy Gronfa Gynaliadwyedd yr Ardollau Agregau ar gyfer Cymru, yn cynrychioli llinell sylfaen o gyflwr y Safleoedd Geoamrywiaeth o Bwysigrwydd Rhanbarthol a gafodd eu datgan adeg yr arolwg (2011 - 2012). Mae'n fwriad yn y dyfodol agos i grŵp De-ddwyrain Cymru o Safleoedd Geoamrywiaeth o Bwysigrwydd Rhanbarthol fod mewn sefyllfa i gynnal rhaglen barhaus o fonitro Safleoedd Geoamrywiaeth o Bwysigrwydd Rhanbarthol, er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu gwarchod yn y tymor hir ac i helpu gyda'u cynnal a'u cadw pe bai'r monitro hwnnw'n tynnu sylw at unrhyw broblemau posib.

Fel proses weithredol, efallai y bydd safleoedd geoamrywiaeth ychwanegol yn dod i sylw'r grŵp Safleoedd Geoamrywiaeth o Bwysigrwydd Rhanbarthol a gallai'r rhain arwain at ddynodi rhagor o Safleoedd Geoamrywiaeth o Bwysigrwydd Rhanbarthol yn ardal y Parc Cenedlaethol.

Mae Map GEO 1 yn dangos lleoliad yr holl Safleoedd Geoamrywiaeth o Bwysigrwydd Rhanbarthol yn y Parc Cenedlaethol. Mae Atodiad 2 yn datgan yr holl safleoedd a'u cyflwr presennol.





# Thema 2:

## Gwarchod a gwella bioamrywiaeth

Cyffredinol: :

**Da**

Dyma'r dangosyddion sy'n cynrychioli'r thema hon:

- **Dangosydd 4:** Cyflwr SoDdGAoedd Biolegol
- **Dangosydd 5:** Ansawdd dŵr
- **Dangosydd 6:** Data Cynefin Cam 1

Mae nifer y nodweddion biolegol o bwysigrwydd wedi dyblu ers 2006, oherwydd y lefelau cynyddol o hysbysu a'r lefelau gwell o fioamrywiaeth. O blith y nodweddion hyn, mae'r ganran sydd mewn cyflwr anffafriol wedi gostwng yn sylweddol a'r ganran sydd mewn cyflwr ffafriol wedi cynyddu'n sylweddol. Mae mwyafrif y nodweddion o bwysigrwydd biolegol yn y Parc mewn cyflwr ffafriol yn awr, sy'n profi bod y dangosydd hwn mewn cyflwr da.

Mae ansawdd y dyfroedd yn y Parc (afonydd, dŵr daear a llynnoedd) yn amrywiol ond, yn gyffredinol, mae mewn cyflwr da neu gymedrol. Asesir y dosbarthiad llinell sylfaen yn 2015, 2021 a 2027 a'r nod yw cyrraedd statws 'Da' yn gyffredinol erbyn 2027. Nid yw'n debygol y sicrheir statws da erbyn 2015 felly ni ellir ystyried bod y dangosydd mewn cyflwr da ar hyn o bryd. Er hynny, yn gyffredinol, mae ansawdd y dŵr yn y Parc yn weddol.

Rhaid ymchwilio ymhellach i Ddata Cynefin Cam 1 wedi'i ddiweddaru, ynghylch manylion y data sydd wedi'u diweddaru. Fodd bynnag, mae'r newidiadau yn y prif fath o gynefin dros gyfnod sylweddol o amser yn gymharol isel (5% neu is), sy'n dangos lefel o gysondeb. Er na fu unrhyw welliant sylweddol yn y prif fath o gynefin, ni fu chwaith ddirywiad sylweddol. O ystyried y sbardunau newid amrywiol, gan gynnwys newid hinsawdd, pwysau datblygu, dulliau ffermio a'r galw am ynni, gellir edrych ar hyn mewn golau cadarnhaol.

Gan ddefnyddio'r tri dangosydd hyn i asesu'r cyflwr cyffredinol (Gwael, Gweddol, Da neu Ragorol), mae cyflwr y parc yng nghyd-destun Thema 2 y Cynllun Rheoli yn DDA.




© Nigel Forster - Afon Caerfanell

# Dangosydd 4:
## Cyflwr SoDdGAoedd Biolegol

Mae Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) biolegol yn ardal o dir sydd wedi'i dynodi fel ardal sydd â diddordeb arbennig oherwydd y fflora a'r ffawna a geir yno.

Mae Map BIO1 yn dangos lleoliad yr holl SoDdGAoedd yn y Parc (gall SoDdGAoedd gynnwys SoDdGAoedd daearegol hefyd). Ceir 65 o SoDdGAoedd biolegol rhannol neu lawn oddi mewn i ffin y Parc Cenedlaethol, gyda chyfanswm o 163 o nodweddion biolegol unigol (CNC 2014). Gyda'i gilydd maent yn gorchuddio oddeutu 19% o'r Parc Cenedlaethol ac yn amrywio o ran maint o 0.1 hectar i 6,765 hectar. Mae oddeutu 10% o'r holl SoDdGAoedd biolegol yn y Parc Cenedlaethol o dan reolaeth gadwriaethol briodol (Cyfoeth Naturiol Cymru).




**Map BIO 1: SoDdGAoedd yn y Parc Cenedlaethol**

Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn berchen ar neu'n rheoli 9 o SoDdGAoedd biolegol ledled y Parc, gyda llawer ohonynt yn gorchuddio tir eang.


Dyma'r safleoedd:

1. SoDdGA Y Mynydd Du (cyflwr presennol: Ffafriol)
2. SoDdGA Coetiroedd Carreg Cennen (cyflwr presennol: Anffafriol - yn adfer)
3. SoDdGA Waun Ddu (cyflwr presennol: Ffafriol)
4. SoDdGA Pyllau Illtyd (cyflwr presennol: Ffafriol)
5. Rhannau o SoDdGA Dyffrynnoedd Nedd a Mellte a Moel Penderyn (Ardal Cadwraeth Arbennig hefyd[10]) (cyflwr presennol: Ffafriol)
6. SoDdGA Caeau Tŷ Mawr (cyflwr presennol: Ffafriol)
7. Rhannau o SoDdGA Llyn Llangors (ACA hefyd) (cyflwr presennol: Ffafriol)
8. Rhannau o SoDdGA Y Blorenge (cyflwr presennol: Anffafriol - yn adfer)
9. SoDdGA Comin Henallt (Comin Adran 9 (dim perchennog hysbys) y mae gan Awdurdod y Parc Cenedlaethol ddyletswydd i'w warchod) (cyflwr presennol: Ffafriol)

10 Ardal sydd hefyd wedi cael ei gwarchod yn arbennig o dan Gyfarwyddeb Cynefinoedd yr Undeb Ewropeaidd

Mae nodweddion biolegol yn gyfres o nodweddion sy'n cynnwys planhigion ac anifeiliaid. Mae gan bob organeb fyw nodweddion biolegol, ond maent yn amrywio'n fawr gan ddibynnu ar y rhywogaethau. Nodweddir SoDdGAoedd Biolegol gan y nodweddion biolegol o bwysigrwydd a geir ynddynt. Mae gan bob SoDdGA nodweddion gwahanol, ac mae rhai ohonynt mewn cyflwr ffafriol efallai, a rhai mewn cyflwr anffafriol. Er enghraifft, mae SoDdGA biolegol Y Mynydd Du'n cynnwys y nodweddion biolegol canlynol: Glaswelltir calchaidd mewn cyflwr ffafriol; Rhostir Sych mewn cyflwr anffafriol; a Rhuthr Dŵr a Ffynnon (mign soligenaidd) mewn cyflwr ffafriol.

Mae Siart Cylch BIO 1 yn dangos bod 163 o nodweddion biolegol o bwysigrwydd yn y Parc Cenedlaethol yn 2014, gyda 93 (57%) mewn cyflwr ffafriol, 51 (31%) mewn cyflwr anffafriol ac mae cyflwr 19 (12%) ohonynt yn anhysbys.[11] Yn 2014, o blith y 51 o nodweddion biolegol mewn cyflwr anffafriol, mae 12 (24%) o'r rhain yn adfer, 5 (10%) yn dirywio ac ar gyfer 34 (67%) ohonynt, mae'r duedd yn anhysbys.




**Siart Cylch BIO 1: SoDdGAoedd Biolegol (nodweddion unigol) yn 2014**

Mae Siart Cylch BIO 2 yn dangos, fel y cofnodwyd ddiwethaf yn Adroddiad Cyflwr y Parc 2006, bod 82 o nodweddion biolegol o bwysigrwydd yn y Parc Cenedlaethol. Roedd 24 (29%) o'r rhain mewn cyflwr ffafriol, 45 (55%) mewn cyflwr anffafriol, un (1%) wedi'i dinistrio'n rhannol a 12 (15%) yn anhysbys.[12]

Yn 2006, o blith y 45 o nodweddion biolegol mewn cyflwr anffafriol, roedd 11 (24%) o'r rhain yn adfer, 11 (24%) yn dirywio ac ar gyfer 23 (50%) roedd y duedd yn anhysbys.

Er bod mwy o nodweddion biolegol mewn cyflwr anffafriol yn 2014 nag a oedd yn 2006, mae cyfanswm y nodweddion biolegol wedi dyblu ers 2006. Felly, mae canran y nodweddion mewn cyflwr anffafriol wedi gostwng yn sylweddol a chanran y nodweddion mewn cyflwr ffafriol wedi cynyddu'n sylweddol, sy'n dangos tuedd gadarnhaol iawn ers 2006. Mae mesurau rheoli yn eu lle i sicrhau bod y duedd hon yn parhau.



**Siart Cylch BIO 2: SoDdGAoedd Biolegol (nodweddion unigol) yn 2006**



Anffafriol

Anhysbys

Ffafriol

Wedi eu dinistrio'n rhannol

11 Adolygiad Cyflym Cyfoeth Naturiol Cymru o Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog 2014

12 Adolygiad Cyflym Cyngor Cefn Gwlad Cymru o Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog 2005


# Dangosydd 5:
## Ansawdd Dŵr

Ar 1 Ebrill 2013, daeth Cyfoeth Naturiol Cymru yn Awdurdod Cymwys yng Nghymru ar gyfer gweithredu'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr.

Mae'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr yn sefydlu fframwaith ar gyfer gwarchod dyfroedd arwyneb (afonydd, nentydd, ffrydiau, llynnoedd, aberoedd, camlesi a dyfroedd arfordirol) a dŵr daear. Ei phwrpas yw atal dirywiad a gwella statws ecosystemau dyfrol, hybu defnydd cynaliadwy o ddŵr, lleihau llygredd dŵr daear a chyfrannu at liniaru effeithiau llifogydd a sychder. Mae'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr yn datgan ei bod yn ofynnol i ni sicrhau statws da yn ein holl ddyfroedd erbyn 2027. Mae hyn yn golygu bod rhaid i ni warchod a gwella ansawdd ein dyfroedd fel eu bod yn gallu cefnogi cymunedau biolegol naturiol ac yn rhydd o lygredd.

Mae'r mapiau canlynol yn dangos dosbarthiad llinell sylfaen y dyfroedd sy'n dod o dan y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr. Mae'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr yn datgan na ddylid gweld unrhyw ddirywiad o'r llinell sylfaen hon a'r nod cyffredinol yw sicrhau statws 'Da' o leiaf erbyn 2015. Os nad yw hyn yn bosib, ac yn amodol ar y meini prawf sydd wedi'u datgan yn y Gyfarwyddeb, y nod yw sicrhau statws Da erbyn 2021 neu 2027.


Mae Map Dŵr 1 yn dangos statws ecolegol a chemegol yr afonydd oddi mewn i ffin y Parc. Ar hyn o bryd, ceir nifer sylweddol o afonydd nad ydynt yn sicrhau statws ecolegol da. Mae'r holl afonydd y mae angen eu hasesu am eu statws cemegol mewn cyflwr da.




**Map Dŵr 1: Dosbarthiad y Dyfroedd Arwyneb**



© Hawlfraint a/neu hawl cronfa wybodaeth Cyfoeth Naturiol Cymru 2013. Cedwir pob hawl.




**Map Dŵr 2: Dosbarthiad Dyfroedd Daear**

Mae Map Dŵr 2 yn dangos statws cemegol a meintiol yr hyn a elwir yn ddyfroedd daear oddi mewn i ffin y Parc. Ar hyn o bryd, mae mwyafrif helaeth y dyfroedd daear yn y Parc yn sicrhau statws cemegol da ac ychydig sydd mewn cyflwr gwael. Mae'r holl ddyfroedd daear yn y Parc yn sicrhau statws meintiol da.




© Philip Veale - Cwm Sere



© Dan Santillo - Llyn Syfaddan

Mae Map Dŵr 3 a Thabl Dŵr1 yn dangos statws ecolegol llynnoedd (gan gynnwys cronfeydd dŵr) oddi mewn i ffin y Parc. Maent yn dangos bod 19 llyn yn y Parc a bod 11 o blith y rhain mewn cyflwr da (58%) ac 8 (42%) mewn cyflwr cymedrol. Does dim angen asesu unrhyw rai o'r llynnoedd am statws cemegol.




**Map Dŵr 3: Statws Ecolegol Llynnoedd**

## Cyfarwyddeb Fframwaith Dŵr – Statws Ecolegol (Llinell Sylfaen 2009)

| Rhif Label | Llyn | Statws Ecolegol |
| --- | --- | --- |
| 1 | Grwyne Fawr Cronfa Ddŵr | Da |
| 2 | Usk Cronfa Ddŵr | Da |
| 3 | Llangorse Llyn | Cymedrol |
| 4 | Cray Cronfa Ddŵr | Da |
| 5 | Talybont Cronfa Ddŵr | Cymedrol |
| 6 | Upper Neuadd Cronfa Ddŵr | Da |
| 7 | Beacons Cronfa Ddŵr | Da |
| 8 | Lower Neuadd Cronfa Ddŵr | Cymedrol |
| 9 | Cantref Cronfa Ddŵr | Da |
| 10 | Pentwyn Cronfa Ddŵr | Cymedrol |
| 11 | Pontsticill Cronfa Ddŵr | Cymedrol |
| 12 | Llangynidr Cronfa Ddŵr | Da |
| 13 | Caim Mound Cronfa Ddŵr | Da |
| 14 | Camo Cronfa Ddŵr | Cymedrol |
| 15 | Lwyn-on Cronfa Ddŵr | Cymedrol |
| 16 | Nant-moel Cronfa Ddŵr | Da |
| 17 | Nanthir Cronfa Ddŵr | Da |
| 18 | Ystradfellte Cronfa Ddŵr | Da |
| 19 | Penderyn Cronfa Ddŵr | Cymedrol |

**Tabl Dŵr 1: Llynnoedd – Statws Ecolegol**

| | |
| --- | --- |
| Uchel | 0 |
| Da | 11 |
| Cymedrol | 8 |
| Gwael | 0 |
| Drwg | 0 |

© hawlfraint a/neu hawl wybodeath Cyfoeth Naturiol Cymru 2013.
Cedwir pob hawl.

# Dangosydd 6:
## Data Cynefin Cam 1 Wedi'u Diweddaru

Bu i ddata Arolwg Cynefin Cam 1 Cyngor Cefn Gwlad Cymru (Cyfoeth Naturiol Cymru erbyn hyn) (1979-1997) ddatgan y prif fathau o gynefinoedd ledled y Parc Cenedlaethol fel Glaswelltir (62%), Coetir (14%) a Rhostir (11%).

Roedd mwy na hanner (55%) y cynefinoedd glaswelltir yn laswelltir wedi'i wella. Roedd ychydig dros 1% o'r Parc Cenedlaethol yn amgylchedd adeiledig. Mae 57,347 hectar o Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog o dan berchnogaeth statudol. O blith y rhain, mae 57,347 hectar, 39%, wedi'i ddynodi'n Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA), mae 33% yn eiddo i'r Parc Cenedlaethol, mae 15% yn eiddo i Cyfoeth Naturiol Cymru, 7% yn eiddo i'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol, 4% yn Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA), 2% yn Warchodfa Natur Genedlaethol (GNG) a llai nag 1% yn eiddo i Ymddiriedolaeth Natur Brycheiniog.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi diweddaru a rhyddhau gwaith mapio cynefin Cam 1 Cymru yn ddiweddar drwy ddefnyddio lluniau lloeren. Casglwyd y data dros nifer o flynyddoedd. Gellir dadansoddi'r newid cynefin dros amser yn awr, ar yr amod bod rhai rhybuddion yn cael eu hystyried wrth gymharu'r data.

Mae ddata Cam 1 wedi'u diweddaru gan ddefnyddio'r yn dangos bod Glaswelltir yn cyfrif yn awr am 57% o'r prif fath o gynefin ledled y Parc Cenedlaethol, sy'n dangos gostyngiad o tua 5%. Mae coetir yn cyfrif am 17% o'r prif fathau o gynefin erbyn hyn, cynnydd o oddeutu 3%. Mae rhostir bellach yn cyfrif am 10% o'r prif fathau o gynefin ledled y parc, gostyngiad o 1%.

| Prif Fathau o Gynefin Cam 1 fel % o arwynebedd y Parc | | | |
|---|---|---|---|
| | **1997** | **2013** | **% Newid** |
| Glaswelltir | 62% | 57% | -5% |
| Coetir | 14% | 17% | 3% |
| Rhostir | 11% | 10% | -1% |

**Tabl PH 1: Newid ym Mhrif Fathau Cynefin Cam 1**



Bydd asesiad manylach yn parhau i gael ei gynnal a bydd y dangosydd hwn yn cael ei ddiweddaru'n fuan, gan gynnwys y newid yn y 14% sy'n weddill o fathau o gynefin.[13] Fodd bynnag, mae'n werth nodi bod dirywiad o 3% wedi bod yn y 3 phrif fath o gynefin a ddangosir yn Nhabl PH1.

Gall y potensial i golli cynefin i ddatblygiadau gael ei ystyried hefyd. Bydd asesiad manylach yn dangos y math o laswelltir sydd wedi'i golli. Gellid ystyried y cynnydd mewn coetir fel tuedd gadarnhaol o gofio dyhead Llywodraeth Cymru i gynyddu coetiroedd ledled Cymru, ond mae'n dibynnu ar y math o goetir sydd wedi cynyddu. Mae'n bwysig bod y math priodol o gynefin yn cael ei ddarparu yn y lleoliad priodol.

13 Gallai gynnwys cynefinoedd fel: perlysiau a rhedyn; mign; siglen; ymylol a llifogydd; dŵr agored; allgreigiau a gwastraff; ac amrywiol.

© Michael Sinclair - Ceffylau Mynydd Bannau Brycheiniog



# Thema 3:

## Darparu Cyfleoedd am Fynediad a Hamdden Awyr Agored

Cyffredinol: :

**Da**

Dyma'r dangosyddion sy'n cynrychioli'r thema hon:

- **Dangosydd 7:** % yr Hawliau Tramwy sy'n hawdd eu defnyddio
- **Dangosydd 8:** Erydiad ar lwybrau yn yr ucheldir
- **Dangosydd 9:** Boddhad ymwelwyr

Roedd canran yr hawliau tramwy sy'n hawdd eu defnyddio ychydig yn is yn 2013 nag yn 2006, fodd bynnag, roedd 26km yn rhagor o hawliau tramwy. Mae nifer yr hawliau tramwy sy'n hawdd eu defnyddio wedi cynyddu ers 2010/2011 ac mae disgwyl i'r duedd hon barhau. Yn gyffredinol, mae cyflwr y dangosydd hwn yn dda.

Yn ôl y gwaith arolygu ar erydiad llwybrau'r ucheldir sydd wedi'i gynnal eisoes, mae mwyafrif y llwybrau mewn cyflwr da. Mae'r gwaith arolygu ar fin dod i ben a bydd yn cael ei gyhoeddi'n ddiweddarach yn 2014. Mae rhai llwybrau yng ngorllewin y Parc eto i'w harolygu, ond mae eu cyflwr yn dda iawn yn hanesyddol. Felly, mae disgwyl i gyflwr cyffredinol llwybrau'r ucheldir barhau'n dda.

Mae'r dangosydd boddhad ymwelwyr yn defnyddio canlyniadau 2 gwestiwn yn Arolwg Ymwelwyr blynyddol Bannau Brycheiniog. Mae'r cwestiynau'n ymwneud â disgwyliadau a safbwyntiau cyffredinol. Yn gyffredinol, mae'r ymateb yn dda iawn i'r ddau gwestiwn.

Gan ddefnyddio'r tri dangosydd hyn i asesu'r cyflwr cyffredinol (Gwael, Gweddol, Da neu Ragorol), mae cyflwr y parc yng nghyd-destun Thema 3 y Cynllun Rheoli yn DDA.



© Nick Turner - Mynydd Illtyd

# Dangosydd 7:

## % yr Hawliau Tramwy sy'n hawdd eu defnyddio

Mae'n ofynnol i Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog lunio Cynllun Gwella Hawliau Tramwy. Mae'r Cynllun, a gymeradwywyd yn 2007[14], yn cynnwys asesiad o i ba raddau y mae'r hawliau tramwy'n bodloni anghenion presennol y cyhoedd a'u hanghenion tebygol yn y dyfodol. Mae hyn yn cynnwys cyfleoedd i gerdded, marchogaeth ceffylau, beicio a ffurfiau eraill ar hamdden yn yr awyr agored, yn ogystal ag edrych ar ba mor hygyrch yw'r gweithgareddau hyn i bobl sydd â nam ar y symud a'r golwg.

Mae llunio Cynllun Gwella Hawliau Tramwy wedi bod yn gyfle i asesu cyflwr y rhwydwaith hawliau tramwy, yr adnoddau sydd ar gael i'w wella a'r cynnydd tuag at ddyfodol a fydd yn cynnig gwelliannau i bob defnyddiwr. Mae'r cyfle i fynd i gerdded wedi cael ei nodi dro ar ôl tro fel atyniad allweddol ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, ac mae poblogrwydd beicio oddi ar y ffordd yn cynyddu. Mae'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy yn datgan 'Wrth gydnabod dibyniaeth allweddol y diwydiant twristiaeth ar hygyrchedd cefn gwlad, a'r lefel amrywiol o gynnal a chadw sydd ar hawliau tramwy unigol, mae sefydlu hierarchaeth rhwydwaith yn gam nesaf hanfodol'.

Yn 2012/13, cafodd 15km o hawliau tramwy eu gwella. Felly cafodd hawliau tramwy cyhoeddus y Parc eu gwella'n dda o ran canran y rhwydwaith y gellir ei ddefnyddio'n hawdd yn ffisegol.

Mae Tabl ROW1 isod yn dangos manylion yr hawliau tramwy ledled y Parc rhwng 2006 a 2013. Mae'n dangos bod y rhwydwaith hawliau tramwy yn 2013 yn hirach o ran cyfanswm pellter o gymharu â 2006.

| mewn km | 2006 | 2013 |
|---|---|---|
| Llwybrau troed | 1,415 | 1,472 |
| Llwybrau marchogaeth | 367 | 344 |
| Cilffyrdd | 200 | 193 |
| Cyfanswm | 1,983 | 2,009 |

**Tabl ROW 1:**
**Pellter (km) yr Hawliau Tramwy rhwng 2006 a 2013**

14 http://www.beacons-npa.gov.uk/the-authority/planning-access-and-row/rights-of-way-improvement-plan/



© Nigel Forster - Tramffordd Bryn Oer gyda Tor y Foel yn y cefndir



Bu i'r Adroddiad Cyflwr y Parc blaenorol (2006) nodi bod 62.2% o hawliau tramwy yn y Parc a oedd yn hawdd eu defnyddio, 73.1% a oedd ar agor a 66.7% gyda chyfeirbyst.

Yn 2013, roedd 59.5% o'r hawliau tramwy'n hawdd eu defnyddio (Gweler y graff ROW1 isod), roedd 85.5% ar agor ac roedd gan 81.3% gyfeirbyst. Mae Graff ROW1 yn dangos ar gyfer 2011 bod 54% o'r hawliau tramwy'n hawdd eu defnyddio. Yn 2012, roedd y ganran hon wedi gostwng i 52.45%.

Yn 2013, roedd % yr hawliau tramwy a oedd yn hawdd eu defnyddio yn 59.5%. Y duedd yn ystod y blynyddoedd diwethaf yw fod cyflwr hawliau tramwy yn gwella.





**Graff ROW 1: % o gyfanswm hyd y llwybrau troed a'r hawliau tramwy eraill sy'n hawdd eu defnyddiol yn unol â'r meini prawf cenedlaethol**

Mae cynnydd cadarnhaol wedi'i sicrhau yn ystod yr wyth mlynedd diwethaf gan fod mwy o hawliau tramwy'n hygyrch yn awr nag o'r blaen. Er bod y duedd yn y tymor hwy'n awgrymu bod gostyngiad wedi bod yng nghanran yr hawliau tramwy sy'n hawdd eu defnyddio (o 62.2% yn 2006 i 59.5% yn 2013), mae'r duedd ddiweddar ers 2011 yn awgrymu bod y rhwydwaith hawliau tramwy'n raddol wella fel a ddangosir graff ROW1. Mae'n werth nodi bod cyfanswm uwch o gilometrau o hawliau tramwy heddiw hefyd o gymharu â 2006.

Yn dilyn astudiaeth graffu ddiweddar, cytunodd Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro, i baratoi ffigur seiliedig ar gyfres fwy hyblyg a realistig o feini prawf.

Mae'r ffigurau uchod yn deillio o feini prawf cenedlaethol llym ond drwy hepgor ychydig o fesurau gellir darparu safbwynt mwy realistig am gyflwr y rhwydwaith. Mae'r ffigur newydd yn dangos bod yr hawliau tramwy sy'n 'agored' yn y parc yn 2013/2014 yn 71.4%. Mae Graff ROW2 isod yn dangos sut mae'r ffigur hwn wedi gwella o 67.83% yn 2011/12.





**Graff ROW 2: Newid mewn Hawliau Tramwy 'Agored'**

Cyflwynodd Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 hawl newydd i bobl gerdded mewn cefn gwlad agored ac ar dir comin cofrestredig yng Nghymru a Lloegr. Mae mapiau ROW1 a ROW2 isod yn dangos y llwybrau mynediad llinellog yn y parc (ROW1) a'r mynediad ardal agored (ROW2) yn y parc (Cynllun Gwella Hawliau Tramwy 2007).




© Nigel Forster - Llyn Syfaddan






Map ROW 1 – Mynediad Llinellog ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog




Map ROW 2 – Mynediad Ardal ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

# Dangosydd 8:
## Erydiad ar Lwybrau yn yr Ucheldir

Mae nifer o brosiectau atgyweirio llwybrau wedi cael eu cwblhau yn ystod y 10 mlynedd diwethaf er mwyn lleihau'r erydiad ar lwybrau yn yr ucheldir. Fodd bynnag, mae erydu llwybrau'r ucheldir yn parhau'n broblem sylweddol yn y Parc Cenedlaethol.

Yn 2006, cynhaliodd Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog arolwg cyflwr ar 155km o lwybrau mynydd ledled y Parc Cenedlaethol. Nod yr arolwg oedd casglu gwybodaeth ddiduedd am gyflwr y llwybrau, fel sail i strategaeth i roi sylw i erydiad yn yr ucheldir a'i reoli. Gellir lawrlwytho copïau o'r Strategaeth Erydiad yr Ucheldir a gynhyrchwyd o wefan y Parc Cenedlaethol.

http://www.beacons-npa.gov.uk/environment/planning-access-and-row/upland-path-erosion/

Mae adolygiad newydd o erydiad yn yr ucheldir ar droed ar hyn o bryd (2014) a chyhoeddir y canlyniadau yn y cyhoeddiadau o'r adroddiad hwn yn y dyfodol. Bydd yr adolygiad yn cynnwys cyfanswm hyd y llwybrau yn y categorïau sydd wedi'u nodi isod. Mae pob llwybr yn yr ucheldir yn cael sgôr erydu a'i gategoreiddio gan ddefnyddio Meini Prawf Scottish National Heritage ar gyfer adolygu erydiad ar lwybrau yn yr ucheldir, fel a ganlyn:

- >80 – Coch
- 70-79 – Melyn
- 60-69 – Glas Golau
- 50-59 – Gwyrdd Golau
- <50 – Glas


Os yw llwybr yn cael ei gategoreiddio'n goch neu'n felyn, mae hyn yn dynodi bod angen gwaith atgyweirio arno. Mae unrhyw sgôr arall yn dynodi bod y llwybr mewn cyflwr derbyniol o leiaf, ac nid yn flaenoriaeth ar gyfer ei atgyweirio.






© Philip Veale - Pen y Fan

Mae Map UE1 isod yn dangos graddfa'r gwaith sydd wedi'i wneud eisoes.




**Map UE 1: Adolygiad o Erydiad yr Ucheldir 2014 (Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog)**

Mae Map UE2 yn dangos sgrinlun agos o Ben-Y-Fan, wedi'i dynnu o Fap UE1, gan ddangos manylder gweledol canlyniadau'r arolwg presennol.





Map UE 2: Adolygiad o Erydiad yr Ucheldir 2014 wedi'i chwyddo (Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog)

# Dangosydd 9:
## Boddhad Ymwelwyr

Fis Tachwedd 2013, cyhoeddodd Grŵp Marchnata a Chydlynu Bannau Brycheiniog ganlyniadau Arolwg Ymwelwyr blynyddol Bannau Brycheiniog. Ceir rhagor o wybodaeth am yr Arolwg Ymwelwyr yma.

http://www.beacons-npa.gov.uk/communities/tourism-new/tourism-facts-and-figures-1.

Roedd Cwestiwn 21 yr Arolwg. Ymwelwyr yn gofyn i'r ymatebwyr, 'Yn gyffredinol, sut oedd eich ymweliad â Bannau Brycheiniog yn cymharu â'ch disgwyliadau?' Gwelir canlyniadau'r cwestiwn hwn yng Ngraff Vis1 isod.




**Graff VIS 1: Boddhad Ymwelwyr**

Sylfaen: Ymatebiwyd 1377 o Ymwelwyr




© Nigel Forster - Cychod ar y gamlas

Yn gyffredinol, mae'r profiad ymweld yn dda a dywedodd bron i hanner (48%) yr ymwelwyr ei fod yn rhagori ar eu disgwyliadau a dywedodd 51% ei fod yn eu bodloni. Dim ond 1% ddywedodd bod eu profiad yn salach na'r disgwyl. Eleni, mae arolwg ymwelwyr Croeso Cymru yn dangos canlyniadau tebyg i Gymru'n gyffredinol (49% yn dweud ei fod yn rhagori ar eu disgwyliadau a 49% yn dweud ei fod yn bodloni eu disgwyliadau). Nid oes llawer o wahaniaeth rhwng ymwelwyr dydd a'r rhai sy'n aros dros nos.

Daw'r graddau gorau gan ymwelwyr newydd, gyda 56% yn dweud bod eu hymweliad wedi rhagori ar eu disgwyliadau. Mae hyn yn galonogol o ran disgwyl ymweliadau ganddynt eto yn y dyfodol o bosib. Mae'r ardal yn gwneud mwy o argraff ar ymwelwyr o rai ardaloedd nag eraill. Dywedodd mwy na hanner yr ymwelwyr o Lundain a'r De Ddwyrain (53%) ac o dramor (52%) bod yr ardal wedi rhagori ar eu disgwyliadau.[15] Roedd cwestiwn 20 yr Arolwg Ymwelwyr yn ymwneud â chanfyddiadau cyffredinol yr ymwelwyr mewn perthynas â'r parc. Gellir gweld y canlyniadau yng Ngraff Vis2 isod.

Mae'r argraff y mae ymwelwyr yn ei chael o gyrchfan yn dylanwadu ar y posibilrwydd o'i argymell i deulu, ffrindiau a chydweithwyr. Er mwyn mesur eu barn am Fannau Brycheiniog, holwyd yr ymatebwyr am nifer o agweddau ar eu hymweliad, gan gynnwys gwerth am arian, cyfeillgarwch a chroeso, argaeledd gweithgareddau i deuluoedd, glendid a pha mor atyniadol yw'r ardal fel parc cenedlaethol. Mae'r farn am yr ardal yn dda yn gyffredinol, gyda'r graddau gorau am y 'croeso' mae'r ymwelwyr yn ei gael (95% yn gadarnhaol) a'r glendid (92%). Prin iawn yw'r safbwyntiau negyddol ac, yn bennaf, maent yn ymwneud â pha mor atyniadol yw'r ardal o gymharu â pharciau cenedlaethol eraill (3% yn negyddol).

Roedd mwy na hanner (52%) y rhai a oedd yn teithio mewn grwpiau teuluol gyda phlant yn 'cytuno'n gryf' bod digon o bethau i deuluoedd eu gwneud, a 39% pellach yn 'cytuno i raddau' (91% yn gadarnhaol). Dim ond 1% oedd yn anghytuno ac nid oedd gan yr 8% a oedd yn weddill farn gref y naill ffordd na'r llall. Mae'r canlyniadau hyn yn well na'r cyfartaledd, lle mae 85% yn cytuno i raddau neu'n cytuno'n gryf. Mae grwpiau eraill wedi ymateb yn fwy niwtral, gan adlewyrchu o bosib eu diffyg profiad o'r math yma o weithgareddau. Fodd bynnag, mae'n galonogol bod y rhai gyda'r profiad mwyaf perthnasol o weithgareddau teuluol yn ymateb yn gadarnhaol.




**Graff VIS 2: Canfyddiadau Cyffredinol**

Mae glendid yn gyffredinol dda yn yr ardal, gyda dim ond ychydig o ymatebwyr yn awgrymu fel arall, ond mae rhai grwpiau o ymwelwyr yn fwy cadarnhaol nag eraill. Mae bron i un o bob deg ymwelydd newydd (59%) yn cytuno'n gryf bod yr ardal yn gyffredinol lân, o gymharu â 53% yn gyffredinol ac ychydig llai na hanner o ymwelwyr o'r gorffennol (49%). Yr ymwelwyr o Gymru a Llundain a'r De Ddwyrain sydd fwyaf cadarnhaol am lendid yr ardal (60% o Gymru a 57% o Lundain a'r De Ddwyrain yn cytuno'n gryf).

Mae'r ymwelwyr i gyd bron yn teimlo bod Bannau Brycheiniog yn lle cyfeillgar a chroesawus i ymweld ag ef (95%) ac mae bron i chwech o bob deg (59%) yn cytuno'n gryf.

Ceir ambell amrywiad yn ôl lleoliad, gyda'r ymwelwyr o Lundain a'r De Ddwyrain yn teimlo'r croeso cynhesaf (63% yn 'cytuno'n gryf') o gymharu â'r rhai o Gymru (60%), y De Orllewin/coridor yr M4 (57%), o dramor (58%) ac o ardaloedd eraill yn Lloegr/yr Alban, sydd ychydig yn is (56%). Roedd ymwelwyr o'r gorffennol ychydig yn llai brwdfrydig am y croeso a gawsant (53% yn cytuno'n gryf).

15 http://www.beacons-npa.gov.uk/the-authority/working-in-partnership/tourism-new/Visitor%20Satisfaction%20Surveys/brecon-beacons-visitor-survey-2013



# Thema 4:

## Gwella Ymwybyddiaeth a Dealltwriaeth o'r Parc

Cyffredinol: :

**GWEDDOL**

Dyma'r dangosyddion sy'n cynrychioli'r thema hon:

- **Dangosydd 10:** Nifer y canolfannau addysg awyr agored
- **Dangosydd 11:** Nifer yr aneddiadau sy'n elwa o wybodaeth a/neu banelau gwybodaeth
- **Dangosydd 12:** Cymhareb yr ymwelwyr sy'n aros yn erbyn ymwelwyr dydd

Gan fod nifer y canolfannau addysg awyr agored yn ddangosydd newydd, mae'r ffigur 12 yn darparu llinell sylfaen ar gyfer ystyried adroddiadau yn y dyfodol yn ei herbyn. Heb unrhyw ddata blaenorol ar gyfer ei ystyried yn eu herbyn, mae'n anodd asesu pa mor dda mae'r dangosydd hwn yn perfformio. Er hynny, mae'n deg dweud bod addysg awyr agored wedi bod yn boblogaidd iawn yn y Parc yn hanesyddol. Ceir hefyd nifer o ddarparwyr addysg awyr agored y mae eu canolfannau fymryn y tu allan i ffin y Parc, ond eto maent yn defnyddio'r Parc yn rheolaidd fel adnodd addysgol.

Mae nifer yr aneddiadau sy'n elwa o wybodaeth a/neu banelau gwybodaeth yn ddangosydd newydd arall ac mae'r ffigur o 30 yn darparu llinell sylfaen ar gyfer mesur data yn y dyfodol yn ei herbyn. Unwaith eto, heb unrhyw ddata blaenorol ar gyfer ei ystyried yn eu herbyn, mae'n anodd rhoi asesiad manwl o'r dangosydd hwn. Mae'n deg tybio bod gwybodaeth a/neu banelau gwybodaeth yn ddefnyddiol i dwristiaid ac i drigolion lleol ac mae 30 o aneddiadau'n nifer sylweddol. Felly, credir yn gyffredinol bod cyflwr y dangosydd penodol hwn yn dda.

Mae Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn anarferol o ran ei gyfran uchel o ymwelwyr dydd (74% o ddyddiau ymwelwyr) o gymharu ag ymwelwyr sy'n aros. Mae hyn yn golygu bod cyfanswm y dyddiau ymwelwyr, sy'n fesur da o gyfraniad economaidd ymwelwyr, yn is yn gyffredinol na Pharciau Cenedlaethol eraill. Mae Cynllun Rheoli'r Ymwelwyr yn ceisio rhoi sylw i'r mater hwn, gan wella cyfraniadau ymwelwyr at yr economi leol drwy newid ymwelwyr dydd i fod yn ymwelwyr sy'n aros (ymhlith camau gweithredu eraill). Ar hyn o bryd, mae'r dangosydd hwn wedi'i ddosbarthu fel gweddol, ond gyda photensial i wella.

Gan ddefnyddio'r tri dangosydd hyn i asesu'r cyflwr cyffredinol (Gwael, Gweddol, Da neu Ragorol), mae cyflwr y parc yng nghyd-destun Thema 4 y Cynllun Rheoli yn WEDDOL.



© Philip Veale - Coed Cefn

# Dangosydd 10:
## Nifer y Canolfannau Addysg Awyr Agored

Mae addysg awyr agored yn cyfeirio at ddysgu trefnus sy'n cael ei gynnal yn yr awyr agored. Mae rhaglenni addysg awyr agored yn cynnwys profiadau preswyl neu ddydd gyda myfyrwyr yn cymryd rhan ac yn dysgu yn yr awyr agored. Mae llawer o sefydliadau'n annog ac yn darparu cyfleoedd ar gyfer dysgu awyr agored.

Mae dysgu awyr agored yn ddull gweithredol ac arbrofol o ddysgu, sy'n agored i bawb ac yn cynnwys bod yn yr awyr agored fel rhan ganolog o'r profiad. Mae'n ceisio defnyddio'r amgylchedd awyr agored fel cyfrwng i drawsnewid y profiad yn ddysgu, drwy wybodaeth, sgiliau, agweddau ac ymddygiad. Mae'n datblygu dealltwriaeth a sgiliau personol, cymdeithasol ac amgylcheddol. Mae'n meithrin ystod o agweddau a chamau gweithredu cadarnhaol tuag at risg, iechyd, y gymuned a chynaliadwyedd. Gall dysgu yn yr awyr agored helpu i ddatblygu gwybodaeth am yr amgylchedd, am yr hunan, am eraill ac am gwricwla penodol. Mae'n gyfrwng i ddatblygu sgiliau gwybyddol, emosiynol a seicomotor ac yn annog empathi, goddefgarwch, dealltwriaeth a chydweithrediad.[17]

Mae profiad yn awgrymu bod symud cyfranogwyr allan o'u hamgylchedd arferol a'u hatal rhag cael llawer o gyfleusterau bywyd modern yn galluogi iddynt fod yn fwy ymwybodol o'u hamgylchedd, gan wella eu canlyniadau dysgu. Maent yn dod i adnabod eu hunain yn well fel rhan o ecosystem fwy, ac yn llai caeth i arferion a normau cymdeithasol. Yn aml iawn, mae gwaith awyr agored yn cynnwys gweithgareddau tîm gyda'r cyfranogwyr yn cael eu hannog i fanteisio ar y rhyddid a gynigir gan y sefyllfa i ddod yn fwy abl i weld eraill fel pobl, heb ystyried eu hil, eu dosbarth, eu crefydd ac ati. Mae gweithio a byw gyda'i gilydd, a dibynnu ar eraill, yn hybu datblygiad personol cyffredinol. Mae hefyd yn datblygu'r agenda iechyd a lles ledled meysydd polisi allweddol y Llywodraeth, gan gynnwys datblygiad economaidd, cymunedau, addysg a dysgu gydol oes, yr amgylchedd a thrafnidiaeth, materion gwledig a diwylliant a chwaraeon.

Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn darparu profiadau dysgu sy'n cefnogi pwrpasau statudol y Parc Cenedlaethol a chwricwlwm Cymru. Darperir hyn mewn tair canolfan addysg awyr agored (ac ar nifer o safleoedd):

- Canolfan Ymwelwyr y Parc Cenedlaethol
- Parc Gwledig Craig-y-Nos
- Canolfan Astudio YHA Danywenallt y Parc Cenedlaethol

Ceir amrywiaeth o ddarparwyr addysg allanol oddi mewn i ffin Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog hefyd:

- Canolfan Addysg Awyr Agored Plas Pencelli
- Canolfan Hyfforddi Arweiniad Awyr Agored y Llynges Frenhinol
- Canolfan Awyr Agored Hampshire - Argoed Lwyd
- Cwmllynfell
- Canolfan Addysg Awyr Agored Storey Arms
- Canolfan Addysg Awyr Agored Dolygaer
- Canolfan Addysg Awyr Agored Maes Lade
- Canolfan Addysg Awyr Agored Tŷ Pendarren
- Canolfan Addysg Awyr Agored Gilwern

Ceir cyfanswm o 12 o ganolfannau addysg awyr agored yn y Parc, yn ganolfannau preswyl a dydd. Bydd y nifer yn cael ei fonitro dros amser, gan adrodd yn ôl arno. Mae nifer amrywiol y canolfannau addysg awyr agored yn ddangosydd meintiol yn gyffredinol o'r gwasanaethau addysg a ddarperir yn y parc. Er nad ydynt wedi'u mesur, mae'r canolfannau hyn yn darparu swyddi i bobl leol ac yn cefnogi'r economi wledig. Hefyd, mae nifer fawr o ddarparwyr awyr agored yn defnyddio'r Parc Cenedlaethol ar gyfer eu busnes/dysg, ond nid ydynt wedi'u lleoli yn y parc ac nid ydym yn gallu eu mesur.



Parc Gwledig Craig-y-Nos

17 Dave Harvey 'What is Outdoor Learning?' Tachwedd 2011




**Map OEC 1: Canolfan Addysg Awyr Agored**

# Dangosydd 11:

## Nifer yr Aneddiadau sy'n Elwa o Wybodaeth a / neu Banelau Gwybodaeth

Mae gwybodaeth am atyniadau twristaidd, cynhyrchion, straeon a hanes yn rhan bwysig o ddarparu profiad cadarnhaol i ymwelwyr ac i drigolion lleol, yn ogystal â bod yn adnodd addysgol. Cyflwynir gwybodaeth gan ddefnyddio dulliau amrywiol, gan gynnwys llyfrynnau gwybodaeth, teithiau tywys neu hunan-dywys, arddangosfeydd rhyngweithiol, arwyddion, arddangosfeydd cyfryngau, gwybodaeth sain neu fyrddau gwybodaeth.

Gwybodaeth yw'r broses o gyfathrebu ystyr ac arwyddocâd gwrthrych, lle neu ardal i bobl. Mae'n adrodd stori, yn dod â lle neu wrthrych yn fyw i rannu beth sy'n ei wneud yn arbennig gydag eraill, ac i'w helpu i'w fwynhau a'i ddeall yn well. Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn awyddus i helpu cymunedau lleol i ddatblygu'r wybodaeth yn eu hardal, oherwydd manteision hynny i bawb dan sylw. Mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn cyflogi aelod o staff, y Swyddog Gwybodaeth, i gydlynu'r holl ddeunyddiau gwybodaeth yn y Parc.


Mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn ymwneud â dwy lefel o gynllunio gwybodaeth. Ceir Strategaeth Gwybodaeth ar gyfer y Parc Cenedlaethol cyfan a hefyd rhai Cynlluniau Gwybodaeth Lleol ar gyfer safleoedd, nodweddion neu ardaloedd unigol, fel llwybr pentref, castell neu raeadr. Hefyd, mae gan y Parc Cenedlaethol rôl hwyluso lai uniongyrchol, ond pwysig, drwy ddyfarnu caniatâd i eraill ar gyfer panelau gwybodaeth.

O'u monitro dros amser, bydd nifer yr aneddiadau sy'n elwa o wybodaeth a phanelau gwybodaeth yn arwydd ansoddol o ba mor eang mae straeon a hanes y parc cenedlaethol yn cael eu cyfathrebu, pa mor eang mae'r neges yn cael ei chyfathrebu a hefyd, pa mor eang maent yn cyfrannu at brofiad cadarnhaol i ymwelwyr.

Ar hyn o bryd mae 30 o aneddiadau'n elwa o wybodaeth neu banelau gwybodaeth Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, fel a ganlyn:

1. Storey Arms
2. Pont ar Daf
3. Maes Parcio Castell Carreg Cennen
4. Pontneddfechan
5. Priordy Llanddewi Nant Hodni
6. Cilfan Llansantffraid
7. Talgarth
8. Cilfan Llanspyddid
9. Mynedfa A40 Llanymddyfri i'r PC
10. Cilfan cronfa ddŵr Llwynn Onn
11. Maes parcio distyllfa Wisgi Penderyn
12. Parc Gwledig Craig y nos
13. Cilfan cronfa ddŵr Crai
14. Chwarel Herberts
15. Afon Llia
16. Penderyn
17. Pont ar Wysg
18. Maes parcio Crughywel
19. Bwlch yr Efengyl
20. Cwm-iou, Queens Head
21. Pengenfordd
22. Neuadd
23. Fforest Mynydd Du, Blaen y Cwm
24. Comin Llangors
25. Maes parcio tref y Gelli
26. Clun Gwyn
27. Gwaun Hepste
28. Cwm Porth
29. Pont Melin Fach
30. Craig y Ddinas


Panel Dehongli newydd ym Maen Llia




Map S11: Gwybodaeth Dehongli


# Dangosydd 12:

## Cymhareb yr Ymwelwyr Sy'n Aros yn erbyn Ymwelwyr Dydd

Mae Cynllun Rheoli Ymwelwyr Bannau Brycheiniog (2013)[17] yn datgan bod y Parc Cenedlaethol yn croesawu cyfanswm o 4.1 miliwn o ymwelwyr sy'n treulio 5.1 miliwn o ddyddiau ym Mannau Brycheiniog bob blwyddyn. O gymharu â'r ddau Barc Cenedlaethol arall yng Nghymru, mae Bannau Brycheiniog yn anarferol o ran cyfran uchel yr ymweliadau nad ydynt yn para mwy na diwrnod (74% o ddyddiau ymwelwyr) o gymharu ag ymwelwyr sy'n aros. Mae hyn yn golygu bod cyfanswm y dyddiau ymwelwyr (mesur da o gyfraniad economaidd ac unrhyw effaith y mae ymwelwyr yn ei chael) yn is nag mewn Parciau Cenedlaethol eraill yng Nghymru.[18] Mae Tabl Vis1 isod yn dangos cymhariaeth â 7 Parc Cenedlaethol arall yn y DU. Mae'n cyflwyno data cymharol ar gyfer ymwelwyr dydd/sy'n aros rhwng Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog a'n detholiad ni, ar hap, o Barciau Cenedlaethol eraill yn y DU.

| Parc Cenedlaethol (y DU) | Ymwelwyr Dydd | Ymwelwyr Sy'n Aros |
|---|---|---|
| Y Peak District (data 2012 ) | 91% | 9% |
| Dartmoor (data 2003) | 82% | 18% |
| Bannau Brycheiniog (data 2012) | 76% | 24% |
| Cymoedd Swydd Efrog (data 2011) | 67% | 33% |
| New Forest (data 2005) | 60% | 40% |
| Cairngorms (data 2008) | 54% | 46% |
| Exmoor (data 2009) | 53% | 47% |


VIS 1: Data cymharol ymwelwyr dydd/sy'n aros



Mae'r nifer fawr o ymwelwyr dydd yn adlewyrchu'r gyfran uchel sy'n dod o ardaloedd trefol neu ddinesig cyfagos Cymru, Henffordd, Caerloyw a Gorllewin Lloegr. I'r gwrthwyneb, daw cyfran uchel o'r ymwelwyr sy'n aros o Dde Ddwyrain Lloegr. Mae agosrwydd Bannau Brycheiniog at lawer o boblogaeth drefol neu ddinesig Cymru'n creu cyfleoedd a heriau i'r Parc Cenedlaethol. Bydd rhaid rheoli'r rhain yn ofalus er mwyn gwireddu'r manteision posib a rheoli effeithiau negyddol.

Er bod effeithiau negyddol yn gysylltiedig â nifer cynyddol o ymwelwyr, credir yn eang bod y manteision cadarnhaol y mae ymwelwyr yn eu cynnig yn llawer mwy na'r effeithiau negyddol ac y dylid cefnogi'r sector twristiaeth.

Yn gyffredinol, mae Parciau Cenedlaethol Cymru'n denu cyfran uchel o ymwelwyr sy'n aros, gyda chyfartaledd o 2.26 o ddyddiau twristaidd i bob ymwelydd o gymharu ag 1.59 ar gyfer Parciau Cenedlaethol Lloegr a'r Alban.[19] Fodd bynnag, mae Siart Cylch Vis1 isod ar gyfer 2011 yn dangos bod 74% o'r ymwelwyr (fel canran o gyfanswm yr ymwelwyr) yn ymwelwyr dydd. Yn 2012, roedd nifer yr ymwelwyr dydd wedi cynyddu i 76%.




**Siart Cylch VIS 1: Manylion y mathau o ymwelwyr, yn ôl dyddiau ymwelwyr cyffredinol, 2011**

Drwy fonitro cymhareb yr ymwelwyr sy'n aros: ymwelwyr dydd, byddwn yn gallu penderfynu ar dueddiadau a rheoli effeithiau posib yn unol â hynny

17 http://www.beacons-npa.gov.uk/the-authority/working-in-partnership/tourism-new/visitor-management-plan-draft

18 Mae'r niferoedd a gasglwyd gan Gymdeithas Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol fel a ganlyn: Bannau Brycheiniog 4.1 M o ymwelwyr a 5.0 M o ddyddiau ymwelwyr; Arfordir Sir Benfro 4.2 M o ymwelwyr a 13 M o ddyddiau ymwelwyr; Eyrir 4.27 M o ymwelwyr a 10.4 M o ddyddiau ymwelwyr.

19 http://npw.nationalparks.gov.uk/__data/assets/pdf_file/0009/389727/Valuing-Wales-National-Parks-.pdf



# Thema 5:

## Creu a Chynnal Cymunedau, Trefi a Phentrefi Cynaliadwy

Cyffredinol: :

**Da**

Dyma'r dangosyddion sy'n cynrychioli'r thema hon:

- **Dangosydd 13:** Risg o lifogydd, lefelau afonydd a newid hinsawdd
- **Dangosydd 14:** Iechyd a lles
- **Dangosydd 15:** Cymunedau sydd â chynllun pentref ac asesiad gofod agored

Ychydig iawn o ardaloedd yn y Parc sy'n wynebu bygythiad llifogydd ar hyn o bryd ac mae'r risg o lifogydd yn gymharol isel ym mwyafrif y Parc. Mae'r dangosydd hwn mewn cyflwr cymharol dda.

Mae'r dangosydd 'iechyd a lles trigolion y Parc' mewn cyflwr da hefyd. Dangoswyd hyn yn y cyflwyniad i'r adroddiad hwn drwy gymharu data'r Cyfrifiad â data gweddill Cymru. Mae'r dangosyddion a ddefnyddir yma'n datgan y gweithgareddau mwyaf poblogaidd ymhlith trigolion y Parc a'r gweithgareddau maent yn cymryd rhan ynddynt amlaf.

Mae cynlluniau pentref yn gysyniad cymharol newydd. Er nad oes unrhyw ofynion deddfwriaethol ar i awdurdodau baratoi'r rhain yng Nghymru, mae gwaith wedi dechrau rhwng Awdurdod y Parc Cenedlaethol a Chyngor Tref y Gelli ar brosiect peilot a fydd yn ffurfio'r templed ar gyfer datblygu hyn gyda chynghorau cymunedol eraill ledled y parc. Mae'n anodd asesu sut mae'r dangosydd hwn yn  perfformio ond erbyn yr Adroddiad Cyflwr y Parc nesaf, gobeithir y bydd o leiaf 2 gynllun pentref wedi'u paratoi. Mae camau ar droed hefyd i baratoi asesiad gofod agored, gan ddefnyddio Aberhonddu fel yr ardal beilot.

Gan ddefnyddio'r tri dangosydd hyn i asesu'r cyflwr cyffredinol (Gwael, Gweddol, Da neu Ragorol), mae cyflwr y parc yng nghyd-destun Thema 5 y Cynllun Rheoli yn DDA.



© Nigel Forster - Pont Crughywel


# Dangosydd 13:

## Risg o lifogydd, lefelau afonydd a newid hinsawdd

### Risg o Lifogydd

Mae Map Llifogydd 1 isod wedi dod o Becyn Tystiolaeth Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Mae'n dangos sut mae'r lefel ddaearyddol isaf lle darperir amcangyfrifon y cyfrifiad (ardaloedd allbwn) yn y Parc Cenedlaethol yn cael eu gosod gan ddefnyddio Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru ar gyfer Risg o Lifogydd.

Mae safle isel yn cyfateb i risg gymharol uchel. Mae'r map yn dangos bod mwyafrif y tir yn y Parc Cenedlaethol yn y canradd 50% ac felly'n wynebu risg gymharol isel o lifogydd. Mae ardaloedd sylweddol o dir yn y canradd 25% ac ardaloedd llai yn y canraddau 10% a 75%. Ceir un ardal fechan iawn i'r gogledd orllewin o'r parc ger Llanymddyfri sydd yn y canradd 2.5% ac felly'n un o'r llefydd mwyaf tebygol yng Nghymru i ddioddef o lifogydd.




**Map Llifogydd 1: Mynegai Risg o Lifogydd (WIMD 2011)**




Hawlfraint a/neu hawl cronfa wybodaeth Cyfoeth Naturiol Cymru 2013.
Cedwir pob hawl.

Mae Map Llifogydd 2 yn fap llifogydd llawer manylach sy'n dangos y risg bosib o lifogydd. Mae Parth Llifogydd 2 yn darparu amcangyfrif gorau o'r ardaloedd o dir sydd â siawns 1000 i 1 o lifogydd mewn unrhyw flwyddyn. Mae'n cynnwys yr ardaloedd hynny sydd wedi'u diffinio ym Mharth Llifogydd 3, sy'n darparu amcangyfrif gorau o'r ardaloedd sydd â siawns 100 i 1 (neu uwch) o lifogydd bob blwyddyn o afonydd.

Bydd monitro dros amser yn galw am wybodaeth am y systemau amddiffyn rhag llifogydd. Mae'r map yn dangos bod systemau amddiffyn rhag llifogydd wedi'u lleoli yn Aberhonddu ac yng Nghrughywel, gydag amddiffynfeydd eraill rhag llifogydd y tu allan i Ffin y Parc (er enghraifft, Llanymddyfri, Three Cocks a rhai amrywiol i'r de o'r Parc). Mae Parth C2 yn datgan ardaloedd o'r gorlifdir heb seilwaith amddiffyn rhag llifogydd arwyddocaol.

Mae'r mapiau hyn yn darparu ffigur llinell sylfaen y bydd cyhoeddiadau yn y dyfodol o Adroddiad Cyflwr y Parc yn ei gymharu yn erbyn data newydd.




**Map Llifogydd 2: Mapiau Risg o Lifogydd**

Hawlfraint a/neu hawl cronfa wybodaeth Cyfoeth Naturiol Cymru 2013.
Cedwir pob hawl.


# Lefelau Afonydd

Mae Asiantaeth yr Amgylchedd (sy'n rhan bellach o Cyfoeth Naturiol Cymru) yn mesur lefelau afonydd ledled Cymru a Lloegr drwy gasglu data o orsafoedd monitro ar hyd yr afonydd.

Ceir un orsaf fonitro o'r fath ar afon Wysg yn Llandeti (gweler Graff Riv1). Mae ystod nodweddiadol lefel yr afon yn y lleoliad hwn rhwng 0.46m a 1.68m. Y lefel uchaf sydd wedi'i gofnodi yn y lleoliad hwn ar gyfer yr afon yw 5.18m, a gofnodwyd ym mis Hydref 1998 (wedi cofnodi gwybodaeth ers mis Hydref 1965). Y lefel uchaf yn ddiweddar yn yr afon yw 4.04m ar 23 Rhagfyr 2013. Ar y 15 Mai 2014, 0.84m oedd lefel yr afon..[20]

Mae monitro lefel y newid mewn afonydd yn bwysig oherwydd yr effeithiau posib ar reolaeth y parc, ar fioamrywiaeth ac o ran dewis lleoliad cartrefi ac adeiladau. Gallai fod yn un o'r dangosyddion cadarn o sut mae cynhesu byd eang yn effeithio ar Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.

**Graff RIV 1: data o orsaf fonitro afon Wysg yn Llandeti**




Ystod Nodweddiadol

Llifogydd posibl

20 Gwybodaeth Cyfoeth Naturiol Cymru

## Newid Hinsawdd

Mae amodau hinsoddol wedi newid erioed ar raddfa leol a byd-eang. Yn y gorffennol, roedd y newid yn bennaf o ganlyniad i achosion naturiol. Fodd bynnag, mae'r newidiadau mwyaf diweddar yn digwydd o ganlyniad i effaith dyn, o allyriadau carbon deuocsid (CO2), methan a nwyon tŷ gwydr eraill yn bennaf. Mae pryderon mawr erbyn hyn am newidiadau yn yr hinsawdd yn y dyfodol, a fydd yn cael effeithiau sylweddol ar fywydau pob dydd pobl yn y pen draw. Mae newid hinsawdd yn sicr o barhau. Fodd bynnag, dylanwedir ar raddfa'r newid hwnnw gan lefel yr allyriadau carbon byd-eang sy'n parhau i gael eu rhyddhau i'r atmosffer. Mae sefyllfaoedd amrywiol wedi cael eu datblygu gan Raglen Effeithiau'r Hinsawdd y DU er mwyn edrych ar effeithiau rhanbarthol. Bydd newid hinsawdd yn her ddifrifol yn y dyfodol a bydd iddo oblygiadau eang iawn i sawl agwedd ar fywyd, o fywyd gwyllt i benderfyniadau cynllunio fel datblygiadau adeiladu ar orlifdiroedd. Bydd gan y newid hinsawdd hwn oblygiadau difrifol i bob sector yn y Parc. Gall effeithio ar fioamrywiaeth, gyda rhai cynefinoedd yn diflannu ac eraill o dan fygythiad. Gallai hyn arwain at rai rhywogaethau'n symud i ardaloedd mwy addas. Bydd y risg o lifogydd a achosir gan lawiad trymach yn cael effaith niweidiol ar ardaloedd sydd wedi'u hadeiladu ar y gorlifdiroedd, gyda llifogydd yn dod yn fwy o broblem. Bydd ffermwyr yn gweld yr effaith hefyd efallai, gyda newid yn y cnydau y gallant eu tyfu, ble gallant eu tyfu ac effeithlonrwydd tir pori. Efallai y bydd effaith sylweddol ar adnoddau archeolegol ac elfennau eraill yr amgylchedd hanesyddol oherwydd newid hinsawdd hefyd.

Mae'n anodd asesu'r union newidiadau yn yr hinsawdd, yn enwedig ar gyfer safleoedd unigol fel Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Fodd bynnag, mae gwyddonwyr yn rhagweld cynnydd cyffredinol mewn tymheredd yn y DU, yn yr haf yn bennaf, gyda disgwyl i dymheredd uchel ddigwydd yn amlach. Mae disgwyl y bydd De Cymru ymhlith yr ardaloedd a wêl y cynnydd mwyaf yn y tymheredd yn yr haf yn y DU. Mae disgwyl i'r patrwm glawiad newid hefyd, gyda'r hafau'n sychach a'r gaeafau'n wlypach. Mae disgwyl i lawiad y gaeaf syrthio mewn stormydd ffyrnicach na'r rhai presennol hefyd.

Yn ogystal ag ymateb i'r heriau hyn, gall y cymunedau o drigolion ac ymwelwyr sy'n dod i'r Parc Cenedlaethol fabwysiadu dulliau rhagweithiol o weithredu i leihau'r "ôl troed carbon" lleol. Gall teithio cynaliadwy ar drafnidiaeth gyhoeddus leihau allyriadau CO2 cerbydau, gan annog mwynhad yr ymwelwyr o'r Parc.

Mae cynllun trydan dŵr y Cymoedd Gwyrdd yn dangos nad oes raid i ddefnyddio adnoddau adnewyddadwy gael effaith niweidiol ar rinweddau arbennig y Parc Cenedlaethol, er enghraifft, drwy ddylunio a chael caniatâd i osod tyrbinau dŵr. Drwy ymgymryd â chynlluniau adnoddau adnewyddadwy, bydd y Parc mewn sefyllfa gryfach i addasu i'r newidiadau hinsawdd a ragwelir.



© Nigel Forster - Pen y Fan

# Dangosydd 14:
## Iechyd a Lles


Mae gan Barciau Cenedlaethol rinweddau arbennig sydd i'w canfod yn eu hamgylcheddau unigryw. Mae gan Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog gyfoeth o dreftadaeth naturiol a hanesyddol ac mae'n adnodd iechyd a lles unigryw ar gyfer y trigolion lleol ac ymwelwyr fel ei gilydd. Rydym wedi sefydlu eisoes yn y cyflwyniad i'r adroddiad hwn bod mwyafrif trigolion y parc cenedlaethol, 82%, yn eu disgrifio eu hunain fel pobl mewn iechyd da neu dda iawn. Mae'r ganran hon ychydig yn uwch nag ar gyfer Cymru a Lloegr yn gyffredinol. O ystyried bod strwythur oedran y parciau cenedlaethol yn hŷn na'r strwythur oedran cenedlaethol, a bod iechyd yn dirywio gydag oedran yn gyffredinol, mae hyn yn dynodi bod y bobl sy'n byw mewn parciau cenedlaethol yn credu eu bod mewn gwell iechyd na'r rhai sy'n byw yng ngweddill y wlad.[21]

Mae Llywodraeth Cymru'n gweld cyswllt clir rhwng lles cymdeithasol ac economaidd y genedl a chynnwys yn gymdeithasol ac iechyd da. Gallwn ddeall mwy am iechyd a lles y bobl sy'n byw yn y parc yn yr arolwg ar y trigolion. Cynhaliwyd yr arolwg hwn yn 2013 ac mae'n cyflwyno data sy'n ddefnyddiol o ran pennu llinell sylfaen ar gyfer gwelliannau yn y dyfodol, a thrwy hynny gefnogi adrodd yn ôl ar gyflwr y parc. Gofynnwyd nifer o gwestiynau o dan 8 thema eang. Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar y 2 gwestiwn canlynol, sydd wedi'u cyfeirio'n bennaf at iechyd a lles:

- Pa weithgareddau oedd trigolion y parc yn mwynhau eu gwneud fwyaf?
- Pa weithgareddau oedd y trigolion yn cymryd rhan ynddynt yn y Parc a pha mor aml oeddent yn gwneud hynny?

Gofynnwyd i'r trigolion pa weithgareddau oeddent yn mwynhau eu gwneud ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Mae Graff HEA1 yn dangos y canlyniadau.

**Gweithgareddau i'w mwynhau ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog**




**Graff HEA 1: Y gweithgareddau a fwynhawyd ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog (Arolwg Trigolion Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog 2013)**


21 Cyfrifiad - Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Y gweithgaredd mwyaf poblogaidd yw 'mwynhau natur a bywyd gwyllt' gyda mwy na phedwar rhan o bump (88%) o'r trigolion yn dynodi eu bod yn cymryd rhan yn y gweithgaredd hwn yn y Parc Cenedlaethol. Dilynir hyn gan 'gerdded er pleser' gyda rhyw wyth o bob deg o'r trigolion (82%) yn nodi hyn.

Mae rhwng pump a chwech o bob deg o'r trigolion yn mwynhau'r golygfeydd hefyd, ac ymweld â llefydd o ddiddordeb arbennig, gan gynnwys gwyliau bwyd a marchnadoedd ffermwyr ac ymweld â chestyll a bryngeyrydd. Mae mynychu gwyliau a digwyddiadau arbennig (e.e. y celfyddydau, cerddoriaeth, gweithgareddau cymunedol, ac ati) yn apelio at bron i hanner y trigolion, ac mae bron i ddwy ran o bump yn mwynhau ymweld ag eglwysi a chapeli'r ardal.

Mae llai o drigolion yn dweud bod ganddynt ddiddordeb mewn 'cymryd rhan mewn gweithgareddau dŵr'; gyda mwy nag un o bob deg o'r trigolion yn dynodi eu bod yn gwneud hyn. Nid yw'n syndod o bosib mai at y trigolion iau y mae'r gweithgaredd hwn yn apelio fwyaf, a'r rhai gyda phlant; mae 21% o'r rhai 44 oed ac iau wedi dynodi eu bod yn cymryd rhan mewn gweithgareddau dŵr, a hefyd 19% o'r rhai sydd â phlant.


- Mae 'Cerdded er pleser', 'Mwynhau natur a bywyd gwyllt' a 'Gwyliau bwyd a marchnadoedd bwyd' i gyd yn weithgareddau sy'n cael eu mwynhau gan gyfran sylweddol uwch o bobl 16-44 oed.
- Mae 'Ymweld ag eglwysi a chapeli' yn cael ei fwynhau gan fwy o'r rhai yn y grŵp oedran hŷn, sef 65+ oed (45%), na'r rhai 16 i 44 oed (24%);
- Yn gysylltiedig ag oedran, mae teuluoedd sydd â phlant hefyd yn fwy tebygol o fwynhau 'ymweld â gwyliau bwyd a marchnadoedd ffermwyr'. O gymharu, mae cyfran uwch o'r rhai heb blant yn mwynhau 'ymweld ag eglwysi a chapeli'.



© Nigel Forster - Tor y Foel

Gofynnwyd i'r trigolion pa weithgareddau oeddent yn cymryd rhan ynddynt ym Mharc Bannau Brycheiniog a pha mor aml oedd hynny'n digwydd. Mae Graff HEA2 yn dangos y canlyniadau.

## Gweithgareddau hamdden a wneir yn y Parc Cenedlaethol




**Graff HEA2: Gweithgareddau Hamdden y Cymerwyd Rhan Ynddynt yn y Parc**



© Nigel Forster - Cribyn



‘Cerdded yn yr iseldir’ yw’r gweithgaredd mwyaf poblogaidd o ddigon fel hobi, gyda mwy na thair rhan o bump (61%) o’r trigolion yn cymryd rhan yn y gweithgaredd hwn bob pythefnos o leiaf. ‘Cerdded mynyddoedd’ yw’r gweithgaredd mwyaf poblogaidd nesaf, gyda mwy na chwarter (27%) y trigolion yn gwneud hyn bob pythefnos o leiaf, a mwy nag un rhan o bump (23%) yn ei wneud bob mis o leiaf.

Y gweithgareddau y cymerir rhan ynddynt leiaf gan y trigolion yw ‘marchogaeth ceffylau’ a ‘beicio mynydd’, gyda mwy na chwech o bob deg o’r trigolion yn dweud nad ydynt erioed wedi cymryd rhan yn y gweithgareddau hyn yn y Parc Cenedlaethol.

Ceir ychydig o wahaniaethau yn y gweithgareddau y cymerir rhan ynddynt unwaith y mis o leiaf, gan ddibynnu ar broffil y trigolion.

- Mae llai o bobl 65 oed a hŷn yn cymryd rhan yn fisol o leiaf mewn cerdded mynyddoedd o gymharu â’r trigolion iau.
- Mae beicio hamdden, beicio mynydd a marchogaeth ceffylau ar sail fisol yn denu cyfran uwch o’r rhai sydd â phlant a’r rhai iau na 44 oed, o gymharu ag eraill.
- Mae ymweld ag atyniad, fel castell neu amgueddfa, yn apelio mwy at y rhai sydd wedi byw yn yr ardal am ddeng mlynedd neu lai.
- Mae’r cymryd rhan mewn gweithgareddau misol yn y Parc Cenedlaethol gyda phlant ar ei uchaf ymhlith y rhai 16 i 44 oed.

Mae rhyw 13% o’r trigolion (418 o drigolion) yn nodi ystod o weithgareddau ychwanegol y maent yn cymryd rhan ynddynt ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, gan gynnwys: pysgota, golff, nofio, canŵio/caiacio, hwylio, gweithgareddau chwaraeon eraill, ffotograffiaeth, gwylio adar a gweithgareddau hamdden eraill amrywiol (e.e. tafarndai, bwytai, ac ati). Mae tua hanner (51%) yn awgrymu eu bod yn cymryd rhan yn y gweithgaredd maent wedi’i nodi unwaith y mis o leiaf.

# Dangosydd 15:

## Cymunedau sydd â Chynllun Pentref ac Asesiad Gofod Agored

### Cynllun Cymunedol

Mae Cynlluniau Cymunedol yn gyfrwng i gymunedau ddod at ei gilydd i benderfynu beth maent eisiau ei wella neu ei gyflawni yn eu hardaloedd. Mae'r canlyniad ar y diwedd, sef Cynllun Cymunedol, fel rheol yn gynllun gweithredu sy'n datgan sut mae'r gymuned yn bwriadu gwneud gwelliannau i'r ardal leol. Efallai mai'r gymuned fydd yn rhoi'r camau gweithredu ar waith, neu gyda phartner. Bydd nifer y cymunedau sydd wedi mabwysiadu Cynllun Cymunedol yn ddangosydd da o ba gymunedau sydd wedi ymrwymo i gadernid cymdeithasol yn y Parc Cenedlaethol.

Mae prosiect peilot Cynllun Cymunedol yn cael ei ddatblygu gyda Chyngor Tref y Gelli ar hyn o bryd. Os bydd yn llwyddiannus, cynigir bod Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn helpu gyda sefydlu o leiaf un Cynllun Cymunedol y flwyddyn a bydd y wybodaeth ddiweddaraf am ganlyniad hyn i'w gweld mewn cyhoeddiadau yn y dyfodol o Adroddiad Cyflwr y Parc.

### Asesiad Gofod Agored

Bydd Asesiad Gofod Agored yn helpu gydag amddiffyn a darparu gofod agored mewn cymunedau.


Mae gofod agored hamdden yn cael ei ddiffinio fel ardal agored, boed yn eiddo cyhoeddus neu breifat, sydd ar gael ar gyfer chwaraeon, hamdden anffurfiol neu i blant chwarae. Mae gofod agored hamdden yn cynnwys mannau chwarae gydag offer i blant, gofod chwarae anffurfiol ac ardaloedd hamdden ffurfiol, fel caeau, lawntiau, traciau athletau, cyrtiau a thir addysgol, wedi'u gosod a'u marcio ar gyfer hamdden ffurfiol. Bydd asesiad gofod agored priodol yn galluogi i Awdurdod y Parc Cenedlaethol ystyried sut byddai unrhyw gynigion datblygu a dderbynnir yn effeithio ar ddarparu gofod agored hamdden yn yr ardal leol, a hefyd a fyddai goblygiadau ehangach hynny'n arwain at ddiffyg gofod agored.

Mae asesiad gofod agored yn cael ei baratoi ar hyn o bryd a chofnodir y canlyniadau mewn cyhoeddiadau yn y dyfodol o Adroddiad Cyflwr y Parc. Bydd monitro dros amser yn dynodi lefel y gwahanol fathau o ofod agored mewn cymunedau. Y bwriad yw i Gyfarwyddyd Cynllunio Ategol gael ei baratoi gan ddefnyddio'r asesiad. Bydd yn cael ei ddefnyddio wedyn i ddarparu cyfarwyddyd manwl ar y dull a ddefnyddir gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog i asesu cynigion datblygu a fyddai'n cynnwys colli gofod agored neu'n effeithio arno mewn rhyw ffordd.


Mae Map OS1 yn dangos sgrinlun o'r Asesiad Gofod Agored drafft sy'n cael ei baratoi ar hyn o bryd. Mae'r polygonau coch yn cynrychioli gofod agored anffurfiol, y polygonau pinc yn cynrychioli ardaloedd chwarae i blant, y polygonau gwyrdd yn cynrychioli gofod agored (dyma ardal heb werth hamdden wedi'i ddiffinio ond eto mae ganddi werth arbennig i ddymunoldeb yr ardal o amgylch) ac mae'r polygonau glas yn cynrychioli gofod agored addysgol. Bydd ffigur sy'n dynodi'r swm o'r holl fathau o ofod agored yn cael ei ddarparu ar ôl cwblhau'r asesiad. Bydd yn cael ei gymharu â'r gofyniad Caeau Mewn Ymddiriedaeth (y safon chwe erw) a'r gofod agored y mae'n ofynnol ei ddarparu mewn hectarau ar gyfer pob 1,000 o'r boblogaeth.



© Finn Beales - Y Gelli Gandryll




**Map OS 1: Asesiad Gofod Agored Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog**





# Thema 6:

## Datblygu economaidd cynaliadwy

Cyffredinol: :

GWEDDOL

Dyma'r dangosyddion sy'n cynrychioli'r thema hon:

- **Dangosydd 16:** Darparu tai fforddiadwy
- **Dangosydd 17:** Gweithgarwch economaidd
- **Dangosydd 18:** Cyflogaeth yn ôl math o ddiwydiant

Mae gan y Cynllun Datblygu Lleol sydd wedi'i fabwysiadu'n ddiweddar bolisïau yn eu lle er mwyn sicrhau bod targedau tai fforddiadwy'n cael eu cyrraedd (ac mae cyfarwyddyd cynllunio ategol drafft ar y gweill hefyd) ac mae'r Parc yn parhau i ddarparu mwy o dai fforddiadwy na Pharciau Cenedlaethol eraill yng Nghymru. Felly mae cyflwr y ddarpariaeth o dai fforddiadwy yn y Parc yn gyffredinol dda.

Mae elfennau cadarnhaol a negyddol yn perthyn i gyflwr presennol y gweithgarwch economaidd yn y Parc; felly mae'r cyflwr presennol yn weddol. Ar un llaw, ceir canran uwch o bobl weithredol yn economaidd yn y Parc o gymharu â Chymru'n gyffredinol. Cynyddodd y ffigur hwn 3.5% rhwng 2001 a 2011. Ceir hefyd lai o bobl anweithredol yn economaidd yn y Parc o gymharu â Chymru gyfan (roedd y ffigur hwn wedi gostwng 3.5% rhwng 2001 a 2011). Fodd bynnag, gostyngodd canran y myfyrwyr yn y Parc rhwng 2001 a 2011 (dangosodd y ganran gyfatebol ar gyfer Cymru gynnydd) ac mae canran y bobl sydd wedi ymddeol yn y Parc yn cynyddu ar gyfradd gyflymach nag yng Nghymru'n gyffredinol.

Ceir hefyd elfennau cadarnhaol a negyddol o ran math o gyflogaeth. Roedd gostyngiad mewn amaethyddiaeth, pysgota a gweithgynhyrchu ond cynnydd mewn adeiladu. Ffurfiwyd categori newydd hefyd, 'Cyfanwerthu a masnach adwerthu; atgyweirio cerbydau modur a beiciau modur', sy'n cyflogi elfen arwyddocaol iawn o gyflogaeth. Mae nifer uchel o bobl hunangyflogedig yn y Parc o hyd. Yn gyffredinol, ystyrir bod y dangosydd hwn mewn cyflwr gweddol.

Gan ddefnyddio'r tri dangosydd hyn i asesu'r cyflwr cyffredinol (Gwael, Gweddol, Da neu Ragorol), mae cyflwr y parc yng nghyd-destun Thema 6 y Cynllun Rheoli yn WEDDOL.



© Nigel Forster - Llyn Syfaddan

# Dangosydd 16:
## Tai Fforddiadwy Ychwanegol


Darperir tai fforddiadwy i deuluoedd nad ydynt yn gallu rhentu na phrynu ar y farchnad agored. Fe'u diffinnir yn y Cynllun Datblygu Lleol fel Tai Rhent Cymdeithasol, Tai Canolraddol ac o gymysgedd a daliadaeth sy'n cyfateb i anghenion lleol. Mae nifer yr anheddau fforddiadwy ychwanegol net a adeiledir yn y Parc Cenedlaethol wedi'i gynnwys fel dangosydd yn Adroddiad Monitro Blynyddol y Cynllun Datblygu Lleol.

Mae tai fforddiadwy ychwanegol yn cynnwys yr unedau tai hynny a brydlesir er mwyn darparu llety i deuluoedd digartref, gyda'r brydles am fwy na blwyddyn. Mae Tabl AH1 yn dangos cyfanswm y ddarpariaeth ychwanegol o dai fforddiadwy yng Nghymru rhwng 2007/8 a 2014/15.

Oddi mewn i ardaloedd y Parciau Cenedlaethol, mae'n dangos bod y nifer uchaf o unedau tai fforddiadwy ychwanegol yn cael eu darparu fel rheol ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Fodd bynnag, yn 2012-13, roedd y ddarpariaeth ar ei huchaf yn Eryri (39 allan o 56 uned). Fel yn 2011-12, ni ddarparwyd unrhyw dai fforddiadwy ym Mharc Cenedlaethol Sir Benfro. Dylanwedir ar lefel y ddarpariaeth gan darged tai fforddiadwy pob un o'r Parciau Cenedlaethol.[22]

Mae Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn adlewyrchu'r duedd genedlaethol o ran bod canran yr unedau tai fforddiadwy ychwanegol a ddarperir ar ei hisaf yn 2012/3 ers dechrau casglu data yn 2007/8, gan adlewyrchu'r gostyngiad parhaus mewn gweithgarwch adeiladu tai newydd ehangach. Mae bwriad i'r ffigur ar gyfer y Parc ostwng eto yn 2013/2014, gan ddarparu 15 o anheddau fforddiadwy ychwanegol, ac nid oes bwriad iddo gynyddu eto tan 2014/5, pryd cynigir 20 o anheddau fforddiadwy ychwanegol.

Er mwyn cyrraedd targedau, mae'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) sydd wedi'i fabwysiadu'n ddiweddar gan Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn datgan y bydd yr Awdurdod yn galw am ddatblygu yn yr aneddiadau penodol er mwyn gwneud cyfraniad tuag at dai fforddiadwy. Er mwyn darparu manylion am weithredu ei sefyllfa bolisi, mae'r Awdurdod wedi llunio Cyfarwyddyd Cynllunio Ategol (CCA) drafft ar gyfer Polisi 28 o'r Cynllun Datblygu Lleol, 'Tai Fforddiadwy'.



© Nigel Forster - Aberhonddu

22 Darparu Tai Fforddiadwy yng Nghymru 2012-2013 – Adolygwyd

| | Ddarperir: 2007-08 | 2008-09 | 2009-10 | 2010-11 | 2011-12 | 2012-13 | Cynlluni-wyd (b) 2013-14 | Arfaethwyd (b) 2014-15 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 77 | 116 | 79 | 85 | 49 | 110 | 41 | 37 |
| Gwynedd | 85 | 93 | 53 | 110 | 37 | 66 | 63 | 106 |
| Conwy | 26 | 49 | 60 | 76 | 32 | 45 | 186 | 128 |
| Sir Ddinbych | 78 | 134 | 87 | 154 | 60 | 61 | 22 | 0 |
| Sir y Fflint | 61 | 74 | 24 | 115 | 71 | 57 | 126 | 125 |
| Wrecsam | 73 | 10 | 41 | 83 | 95 | 15 | 74 | 64 |
| Powys | 41 | 55 | 56 | 27 | 38 | 105 | 0 | 0 |
| Ceredigion | 45 | 34 | 38 | 47 | (r )119 | 15 | 52 | 136 |
| Sir Benfro | 82 | 67 | 123 | 105 | 26 | 59 | 28 | 159 |
| Sir Gaerfyrddin | 86 | 80 | 186 | 86 | 92 | 87 | 40 | 150 |
| Abertawe | 102 | 299 | 124 | 104 | 297 | 129 | 401 | 450 |
| Castell-nedd Port Talbot | 35 | 81 | 138 | 100 | 83 | 140 | 152 | 90 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 127 | 110 | 101 | 140 | 120 | 30 | 123 | 183 |
| Bro Morgannwg | 18 | 11 | 68 | 140 | 48 | 73 | 42 | 204 |
| Caerdydd | 256 | 459 | 488 | 362 | 417 | 329 | 233 | 217 |
| Rhondda Cynon Taf | 89 | 117 | 103 | 86 | 40 | 84 | 97 | 106 |
| Merthyr Tudful | 21 | 50 | 65 | 73 | 31 | 66 | 52 | 25 |
| Caerffili | 95 | 203 | 170 | 160 | 108 | 144 | 140 | 276 |
| Blaenau Gwent | 11 | 70 | 33 | 75 | 122 | 116 | 41 | 54 |
| Torfaen | 99 | 71 | 92 | 88 | 92 | 58 | 183 | 153 |
| Sir Fynwy | 76 | 101 | 26 | 167 | 191 | 85 | 91 | 205 |
| Casnewydd | 109 | 259 | 215 | 103 | 264 | 168 | 36 | 26 |
| **Cymru** | **1,692** | **2,543** | **2,370** | **2,486** | **(r ) 2,432** | **2,042** | **2,223** | **2,894** |
| O'r rhain , cyfanswm ddarperir yn: | | | | | | | | |
| Parc Cenedlaethol Eryri | 6 | 14 | 16 | 8 | 5 | 39 | 22 | 26 |
| Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro | 8 | 15 | 12 | 3 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog | 16 | 25 | 35 | 20 | 27 | 17 | 15 | 20 |
| **Cyfanswm y Parc Cenedlaethol** | **30** | **54** | **63** | **31** | **32** | **56** | **37** | **46** |
| Cyfanswm y tu allan o'r Parciau Cenedlaethol | 1,662 | 2,489 | 2,307 | 2,455 | 2,400 | 1,986 | 2,186 | 2,848 |
| **Cymru** | **1,692** | **2,543** | **2,370** | **2,486** | **(r ) 2,432** | **2,042** | **2,223** | **2,894** |

**Tabl AH 1: Darparu Tai Fforddiadwy Ychwanegol yng Nghymru (Ffynhonnell: Data a gasglwyd am Ddarparu Tai Fforddiadwy, LIC)[23]**

23 http://wales.gov.uk/docs/statistics/2013/131106-affordable-housing-provision-2012-13-revised-en.pdf

# Dangosydd 17:
## Gweithgarwch Economaidd

Yn ogystal â chyflawni eu rôl fel stiwardiaid amgylcheddol, mae gan Barciau Cenedlaethol yng Nghymru a Lloegr ddyletswydd ar yr un pryd i 'geisio meithrin lles economaidd a chymdeithasol cymunedau lleol yn y Parciau Cenedlaethol'. Mae Parciau Cenedlaethol yn ased economaidd hanfodol sy'n gwneud cyfraniad arwyddocaol at ffyniant a lles, cynnal swyddi wrth reoli'r amgylchedd naturiol, cefnogi busnesau sy'n ymwneud â ffermio, bwyd, coedwigaeth, twristiaeth, a chynhyrchu a marchnata cynhyrchion a gwasanaethau nodedig, organig a naturiol yn lleol, a darparu lleoliadau atyniadol i bobl a busnesau.

Ceir rôl gynyddol bwysig i'r sector gofal ei chwarae drwy gefnogi cyflogaeth leol, yn enwedig o ystyried y tabl cyflogaeth ar dudalen 79, sy'n dangos mai'r maes unigol uchaf o ran cyflogaeth yw iechyd a gofal cymdeithasol, dros 14%.

Mae Parciau Cenedlaethol yn cyflwyno gwasanaethau ecosystemau y mae ein heconomi a'n cymdeithas ehangach yn dibynnu arnynt, fel darparu dŵr glân, dylanwadu ar gyflenwad dŵr a'r risg o lifogydd, rheoleiddio hinsawdd ac ansawdd aer, a darparu tirluniau lled-naturiol atyniadol lle gall pobl ymlacio ac ymarfer, gan helpu i wella ein hiechyd a'n lles. Maent hefyd yn chwarae rhan bwysig yn hanesyddol, yn gymdeithasol ac yn ddiwylliannol, gan gefnogi addysg, cyfrannu at ein hymdeimlad o le, a darparu ffocws ar gyfer ymgysylltu cymunedol a gwirfoddoli.

Mae gwarchodaeth amgylcheddol a lles economaidd yn cael eu hystyried fel nodau sy'n gwrthdaro yn aml. Fodd bynnag, ceir cydnabyddiaeth gynyddol, a nifer cynyddol o astudiaethau gwyddonol, sy'n dangos bod rhannau helaeth o'r economi fodern yn dibynnu ar ansawdd yr amgylchedd a defnydd cynaliadwy ohono.[24]

Mae Tabl EA1 yn cyflwyno darlun o gyflogaeth y sector amgylcheddol ym Mharciau Cenedlaethol Cymru. Efallai na ellir priodoli rhai o'r sectorau hyn yn llawn i'r amgylchedd ac felly, er mwyn deall eu cyfraniad at yr ystadegau am gyflogaeth yn yr adran Amgylcheddol, mae'n rhaid amcangyfrif cyfran y gweithgarwch yn y gwahanol sectorau sy'n dibynnu ar yr amgylchedd.



24 Gwerthfawrogi Parciau Cenedlaethol Cymru (Medi 2013); http://www.teebweb.org/

| | Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog | Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro | Parc Cenedlaethol Eryri | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| Amaethyddiaeth, coedwigaeth, pysgota a mwyngloddio | 1,445 | 1,018 | 1,539 | 4,001 |
| Trydan | 83 | 77 | 54 | 215 |
| Masnach adwerth | 726 | 474 | 406 | 1,606 |
| Llety ac Asiantau theithio | 586 | 831 | 1,072 | 2,489 |
| Tai bwyta a thafarnau | 370 | 619 | 382 | 1,371 |
| Hamdden a diwylliant | 688 | 238 | 273 | 1,199 |
| Dŵr, carthffosiaeth a gwastraff | 133 | 22 | 356 | 511 |
| Cludiant tir | 43 | 47 | 43 | 133 |
| Gweinyddiaeth cyhoeddus ac amddiffyn | 705 | 206 | 334 | 1,246 |
| **Cyfanswm** | **4,779** | **3,532** | **4,459** | **12,771** |

**Tabl EA 1: Cyflogaeth yn y Sector Amgylcheddol ym Mharciau Cenedlaethol Cymru**




© Nigel Forster - Aberhonddu

Mae'r tri Pharc Cenedlaethol yn rhan arwyddocaol o Economi Cymru. Yn gyffredinol, mae economïau'r Parciau Cenedlaethol yn cyfrif am £557m o'r Gwerth Ychwanegol Gros, gan gynrychioli 1.2% o economi Cymru.[25]

Mae gweithgarwch economaidd sy'n ymwneud â gwarchod neu reoli'r amgylchedd, neu'n ddibynnol mewn rhyw ffordd ar yr amgylchedd, yn cefnogi 10,738 o swyddi'n uniongyrchol oddi mewn i ffin y Parc Cenedlaethol a 2,033 o swyddi pellach ledled Cymru.

Mae'r gweithgarwch hwn yn cynhyrchu 0.7% o Gynnyrch Domestig Gros Cymru. Mae hyn yn eithrio effaith gwariant ymwelwyr â'r Parc Cenedlaethol mewn rhannau eraill o Gymru. Mae Siart EA1 isod yn datgan cyfraniad amgylchedd y Parc Cenedlaethol at gyflogaeth yng Nghymru.





**Siart Cylch EA 1: Cyfraniad Amgylchedd y Parc Cenedlaethol at Gyflogaeth yng Nghymru (Ffynhonnell Gwerthfawrogi Parciau Cenedlaethol Cymru - Medi 2013)**

Mae Graff EA1 yn cyflwyno proffil o Economïau Parciau Cenedlaethol Cymru. Mae'n cymharu data Parciau Cenedlaethol Cymru â data Cymru. Mae'n dangos bod gwahaniaethau sylweddol o ran cyfran y swyddi ym mhob sector ym mhob un o'r Parciau Cenedlaethol.

Fodd bynnag, cyfresi data Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog a Chymru yw'r rhai mwyaf cymharol a'r gwahaniaethau mawr yw bod y Parc Cenedlaethol yn darparu ychydig mwy o gyflogaeth mewn cyfanwerthu,

adwerthu, gwestai a bwytai a chryn dipyn yn fwy o gyflogaeth mewn prif ddiwydiannau a chyfleustodau. Mae'r Parc Cenedlaethol fel ardal yn darparu ychydig yn llai o swyddi mewn gweinyddiaeth gyhoeddes, amddiffyn, trafnidiaeth, cyfathrebu a gweithgynhyrchu ac adeiladu.




**Graff EA 1: Proffil o Economïau'r Parciau Cenedlaethol (Ffynhonnell - data ONS)**

Mae Tabl EA2 yn datblygu'r dangosydd a ddefnyddiwyd yn Adroddiad Cyflwr y Parc 2006. Mae'n cymharu data am weithgarwch economaidd o Gyfrifiad 2011 gan lunio cymariaethau rhwng Cymru a Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Mae'n hynod ddefnyddiol oherwydd mae'n darparu data cymharol o 2001. Mae'n dangos canran uwch o bobl weithredol yn economaidd ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog nag yng Nghymru'n gyffredinol. Mae'r ganran ar gyfer y bobl hunangyflogedig sy'n byw yn y Parc Cenedlaethol bron i ddwbl y ganran yng Nghymru, a cheir canran sylweddol is o bobl ddi-waith yn y Parc. Fodd bynnag, ceir canran uwch o fyfyrwyr a gweithwyr yng Nghymru'n gyffredinol o gymharu â Pharciau Cenedlaethol.

Mae Tabl EA2 yn dangos canran lai o bobl ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog sy'n anweithredol yn economaidd ond eto ceir canran uwch o bobl wedi ymddeol yn y Parc (mae pobl wedi ymddeol yn cael eu dosbarthu fel pobl anweithredol yn economaidd). Cynyddodd nifer y bobl sydd wedi ymddeol yn y Parc rhwng 2001 a 2011 a bu gostyngiad bychan yn nifer y myfyrwyr. Cynyddodd nifer y bobl wedi ymddeol yng Nghymru'n gyffredinol ryw ychydig hefyd, er nad oedd yn gynnydd mor amlwg â'r ffigur cyfatebol ar gyfer y Parc. Bu cynnydd yn nifer y myfyrwyr yng Nghymru'n gyffredinol rhwng 2001 a 2011.

| Y ffigurau i gyd yn % | Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog | | Cymru | |
|---|---|---|---|---|
| | 2001 | 2011 | 2001 | 2011 |
| Gweithredol yn Economaidd | 65.2 | 68.7 | 61 | 65.8 |
| Cyflogedig | 45.7 | 47.4 | 47.5 | 49.5 |
| Hunangyflogedig | 15.2 | 16 | 7.7 | 8.6 |
| Di-waith | 2.7 | 3.1 | 3.5 | 4.3 |
| Myfyriwr llawn amser | 1.6 | 2.2 | 2.3 | 3.3 |
| Anweithredol yn Economaidd | 34.8 | 31.3 | 39 | 34.2 |
| Wedi ymddeol | 16 | 18.8 | 14.8 | 16.1 |
| Myfyriwr | 4.3 | 4.2 | 5.1 | 6 |
| Gofalu am y cartref/teulu | 5.2 | 2.7 | 6.4 | 3.8 |
| Salwch Parhaol/Anabl | 6.8 | 4 | 9.2 | 6.3 |
| Arall | 2.5 | 1.6 | 3.5 | 2 |

**Tabl EA 2: Gweithgarwch Economaidd Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog/Cymru**



25 http://www.nationalparkswales.gov.uk/__data/assets/pdf.file/0009/389727/Valuing-Wales-National-Parks-.pdf

© Philip Veale - Aberhonddu - Pen-y-Fal o Fwlch

# Dangosydd 18:

## Cyflogaeth yn ôl Math o Ddiwydiant

| Cyfrannedd o bobl oed 16-74 yn gweithio yn: | 1991 | 2001 |
|---|---|---|
| Amaethyddiaeth a physgota* | 10. 2% | 7. 3% |
| Ynni a dŵr | 2. 6% | 1. 2% |
| Gweithgynhyrchu | 10. 1% | 10. 8% |
| Adeiladu | 6. 4% | 7. 1% |
| Dosbarthu, gwestai a bwytai** | 17. 8% | 20. 9% |
| Trafnidiaeth a chyfathrebu*** | 4. 1% | 3. 7% |
| Cyllid bancio ac yswiriant | 7. 5% | 10. 5% |
| Gweinyddiaeth gyhoeddus, addysg ac iechyd† | - | 33. 1% |
| Gwasanaethau eraill †† | 37. 4% | 5. 3% |
| Heb ei nodi ††† | 2. 0% | - |
| **Cyfanswm** | **98. 1%** | **99. 9%** |

Ffynhonnell: Sensws 1991; Sensws 2001 Crynhoad o ystadegau ardaloedd lleol 2004

**Tabl ET1: Cyflogaeth yn ôl Math o Ddiwydiant**

Mae Tabl ET1 yn datgan cyflogaeth yn ôl math o ddiwydiant yn y Parc Cenedlaethol rhwng 1991 a 2001. Cynigir data Cyfrifiad 2011 isod ar gyfer cymharu. Mae'r categorïau diwydiant cyflogaeth wedi newid dros amser ond maent yn darparu data defnyddiol am dueddiadau ar gyfer mathau o gyflogaeth trigolion y Parc Cenedlaethol.

Mae Tabl ET1 yn cyflwyno'r data Cyflogaeth yn ôl y math o Diwydiant a ddefnyddiwyd yn Adroddiad Cyflwr y Parc 2006. Bydd data'r Cyfrifiad yn y dyfodol, a'r rhagolygon canol blwyddyn, yn galluogi'r dangosydd hwn i gael ei ddiweddaru gan ddefnyddio cyfres ddata gyson.

* Yn cynnwys coedwigiaeth ym 1991.

** Coedwigaeth ni crybwyllir yn 2001

*** Cludiant yn unig ym 1991

† Heb eu pennu yn 1991, ond yn ôl pob tebyg cynnwys mewn gwasanaethau eraill

†† Mae'n debyg bod y ffigur 1991 yn cynnwys gweinyddiaeth gyhoeddus ayyb

††† Dim categori ar gyfer ' heb ei nodi ' yn 2001

**Yn gyffredinol, mae'r data'n dangos bod gostyngiad pellach wedi bod mewn cyflogaeth mewn amaethyddiaeth a physgota (gan gynnwys coedwigaeth yn nata 2011) a gostyngiad mewn cyflogaeth gweithgynhyrchu yn dilyn cynnydd rhwng 1991 a 2001. Bu cynnydd pellach mewn cyflogaeth adeiladu. Mae'n anodd canfod tuedd mewn llety a gwasanaethau bwyd gan ei fod yn gategori newydd. Fodd bynnag, wrth symud ymlaen bydd y newid hwn yn darparu data gwerthfawr am dueddiadau mewn categori cyflogaeth pwysig i drigolion y Parc.**

**Mae prif gategorïau cyflogaeth y Parc wedi cael eu rhannu ymhellach ers cynhyrchu Adroddiad Cyflwr y Parc 2006 ond, yn gyffredinol, maent yn parhau i ddangos y gyflogaeth fwyaf mewn gweinyddiaeth gyhoeddus, amddiffyn ac addysg, gyda dau gategori newydd wedi'u datgan yng Nghyfrifiad 2011, sef cyfanwerthu a masnach adwerthu ac iechyd pobl a gwaith cymdeithasol. Mae'n bur debyg mai'r rheswm am hyn yw'r nifer o gyflogwyr mwy sydd wedi'u lleoli yn y Parc Cenedlaethol. Mae gan Gyngor Sir Powys swyddfeydd yn Aberhonddu (yn y Parc Cenedlaethol) a hefyd mae pencadlys adrannol Heddlu Dyfed-Powys yma, y Weinyddiaeth Amddiffyn ac Awdurdod y Parc Cenedlaethol ei hun. Ceir tair ysgol uwchradd a nifer o ysgolion cynradd yn y Parc a nifer o rai gerllaw, yn ogystal ag Ysbyty Coffa'r Rhyfel yn Aberhonddu ac ysbytai eraill gerllaw. Ceir oddeutu 15 o gartref gofal yn y parc a mwy na 30 yn agos at y parc.**

**Data Cyfrifiad 2011:**
Cyfanswm y Personau'n gweithio – 15,889

| | |
|---|---|
| Amaethyddiaeth, Coedwigaeth a Physgota | 5.9% |
| Gweithgynhyrchu | 6.5% |
| Adeiladu | 8.2% |
| Cyfanwerthu a masnach adwerthu; atgyweirio cerbydau modur a beiciau modur | 3.4% |
| Trafnidiaeth a Storio | 2.5% |
| Llety a gwasanaethau bwyd | 7.5% |
| Gwybodaeth a Chyfathrebu | 1.9% |
| Gweithgareddau ariannol ac yswiriant | 1.5% |
| Eiddo Tiriog | 1.4% |
| Proffesiynol, gwyddonol a thechnegol | 5% |
| Gwasanaethau gweinyddol a chefnogi | 4.2% |
| Gweinyddiaeth gyhoeddus ac amddiffyn, nawdd cymdeithasol gorfodol | 9.7% |
| Addysg | 10.6% |
| Iechyd Pobl a gwaith cymdeithasol | 14.6% |
| Arall | 5.3% |

Rhwng 1991 a 2001, roedd nifer y bobl a oedd yn cael eu cyflogi mewn amaethyddiaeth a physgota wedi gostwng o 10.2% i 7.3%. Erbyn 2011 roedd y nifer hwn wedi gostwng ymhellach i 5.9% (gan gynnwys coedwigaeth).

Rhwng 1991 a 2001, roedd nifer y bobl a oedd yn cael eu cyflogi mewn gweithgynhyrchu wedi cynyddu o 10.1% i 10.8%. Erbyn 2011 roedd y nifer hwn wedi gostwng i 6.5%.

Rhwng 1991 a 2001, roedd nifer y bobl a oedd yn cael eu cyflogi mewn adeiladu wedi cynyddu o 6.4% i 7.1%. Erbyn 2011 roedd y nifer hwn wedi cynyddu ymhellach i 8.2%.

Newidiodd y categori ar gyfer 'Trafnidiaeth a Chyfathrebu' yn 2011 i 'Trafnidiaeth a Storio'. Bu gostyngiad yn y niferoedd a oedd yn cael eu cyflogi yn y categori hwn o 4.1% i 3.7% rhwng 1991 a 2001, a gostyngiad pellach erbyn 2011 i 2.5%.

Cynyddodd y niferoedd a gyflogir yn y categori 'Dosbarthu, Gwestai a Bwytai' rhwng 1991 a 2001 o 17.8% i 20.9%. Yn 2011, newidiodd y categori i 'Llety a Gwasanaethau Bwyd' (gan golli elfen ddosbarthu'r categori) a bu gostyngiad yn y niferoedd i 7.5%. Mae'n werth nodi bod data Cyfrifiad 2011 yn cynnwys categori newydd, 'Cyfanwerthu a masnach adwerthu; atgyweirio cerbydau modur a beiciau modur'. Nid oedd hwn wedi'i gynnwys yn ACYP 2006 ond mae'n rhan arwyddocaol o gyflogaeth yn y Parc Cenedlaethol, yn 13.4%.

Mae'n werth nodi bod amrywiaeth o newidiadau eraill yn y categorïau a gafodd eu defnyddio rhwng data Cyfrifiad 1991, 2001 a 2011, sy'n darparu mân gyflogaeth yn y Parc. Mae Adroddiad Cyflwr y Parc yn tynnu sylw at newidiadau mawr mewn tueddiadau cyflogaeth.



© Philip Veale - Cronfa Ddŵr Pontsticill

# Atodiad 1:

Mae'r deuddeg egwyddor ganlynol yn benodol berthnasol i reoli'r ardaloedd Categori V a warchodir. Er bod rhai o'r rhain yn berthnasol hefyd mewn ardaloedd eraill a warchodir, mae iddynt arwyddocâd ychwanegol wrth reoli Tirluniau a Warchodir.[27]

**Egwyddor 1:** Mae cadwraeth tirlun, bioamrywiaeth a gwerthoedd diwylliannol wrth galon y dull o weithredu gydag ardal Categori V a warchodir.

**Egwyddor 2:** Dylai ffocws y rheolaeth fod ar y rhyngweithio rhwng pobl a natur.

**Egwyddor 3:** Dylai pobl gael eu gweld fel stiwardiaid y tirlun.

**Egwyddor 4:** Rhaid rheoli gyda a thrwy'r bobl leol ac, yn bennaf, ar eu cyfer a chanddynt hwy.

**Egwyddor 5:** Dylid seilio'r rheolaeth ar ddulliau cydweithredol, fel cydreoli a thegwch i randdeiliaid niferus.

**Egwyddor 6:** Mae rheolaeth effeithiol yn gofyn am amgylchedd gwleidyddol ac economaidd cefnogol.

**Egwyddor 7:** Nid dim ond ymwneud â'u gwarchod ddylai'r gwaith o reoli ardaloedd Categori V a warchodir, ond hefyd eu hyrwyddo.

**Egwyddor 8:** Pan mae gwrthdaro na ellir ei ddatrys rhwng yr amcanion rheoli, dylid rhoi blaenoriaeth i gadw rhinweddau arbennig yr ardal.

**Egwyddor 9:** Dylid lleoli gweithgareddau economaidd nad oes raid eu cynnal yn y Tirlun a Warchodir y tu allan iddo.

**Egwyddor 10:** Rhaid rheoli fel busnes gan gynnal y safonau proffesiynol uchaf.

**Egwyddor 11:** Dylai'r rheoli fod yn hyblyg a pharod i addasu.

**Egwyddor 12:** Dylid mesur llwyddiant y rheolaeth yn amgylcheddol ac yn gymdeithasol

---

1 Gweler yn benodol WCPA Economics Task Force, 2000. Financing Protected Areas: Guidelines for Protected Area Managers, IUCN Gland, Y Swisdir a Chaergrawnt, y DU.

2 I gael rhagor o gyfarwyddyd gweler: Hockings M., Stolton S. a Dudley N. 2000. Evaluating Effectiveness: A Framework for Assessing the Management of Protected Areas, IUCN, Gland, Y Swisdir a Chaergrawnt, y DU.



27 http://www.iucn.org

# Atodiad 2:

| Rhif | Enw'r SGBRh | Cyflwr |
|---|---|---|
| 1 | Llechfeini Mynydd Myddfai | Da |
| 2 | Maes-y-ffin Cwm | Da |
| 3 | Nevill Hall | Da |
| 4 | Tirlithriad Darren Cwm-iou | Da |
| 5 | Bloodstone | Da |
| 6 | Yr Hermitage | Dirywio |
| 7 | Llanfellte | Da |
| 8 | Llanfrynach | Da |
| 9 | Marian Ffrwdgrech | Da |
| 10 | Marian Cradog | Da |
| 11 | Cefn Crai | Da |
| 12 | Aberbran Abercamlais | Da |
| 13 | Llywel Twyn-y-felin | Da |
| 14 | Craig y fro | Da |
| 15 | Priory Groves | Da |
| 16 | Dyffryn Mawr | Da |
| 17 | Marian Llandeti | Da |
| 18 | Teras Ffrwd-rewlifol Stanton | Da |
| 19 | Tirlithriad Fan Dringarth | Sefydlog |
| 20 | Cwm Coed (Gofer) | Da |
| 21 | Carn Pen Clogau | Da |
| 22 | Tair Carn Uchaf | Rhagorol |
| 23 | Blaen Caerfanell | Da |
| 24 | Blaen Senni | Da |
| 25 | Blaen Pig | Da |
| 26 | Carno Addit | Sefydlog |

## Safleoedd Geoamrywiaeth o Bwysigrwydd Rhanbarthol

| | | |
|---|---|---|
| 27 | Carreg Cennen | Rhagorol |
| 28 | Cefn Cul | Da |
| 29 | Craig Cwm-Du | Da |
| 30 | Cwm Crew | Da |
| 31 | Cwm Cynwyn | Da |
| 32 | Cwm Oergwm | Da |
| 33 | Cwm Pwllfa | Da |
| 34 | Dan Yr Ogof | Rhagorol |
| 35 | Mwyngloddiau Silica Dinas | Sefydlog |
| 36 | Fan Bwlch Chwyth | Da |
| 37 | Fan Gyhirych | Da |
| 38 | Bro Henllys | Da |
| 39 | Hepste a Melte | Rhagorol |
| 40 | Chwarel Herberts | Da |
| 41 | Llygad Llwchwr | Da |
| 42 | Ceunant Mynydd Llangatwg a Chlydach | Sefydlog |
| 43 | Mynydd Llangynidr | Da |
| 44 | Ogof Draenen a Siambre Ddu | Rhagorol |
| 45 | Ogof Ffynnon Ddu | Dirywio |
| 46 | Pen Milan | Da |
| 47 | Porth-yr-Ogof | Rhagorol |
| 48 | Ffrwd Allt Troedrhiwfelen | Da |
| 49 | Pwll Calch | Gwael |
| 50 | Chwarel Cil-maen-llwyd | Dirywio |
| 51 | Carreg-yr-Ogof | Rhagorol |

| | | |
|---|---|---|
| 52 | Chwarel Abercriban | Da |
| 53 | Tramffordd o dan Darren Ddu | Dirywio |
| 54 | Craig-y-Gaer | Sefydlog |
| 55 | Chwarel Drwm a Mwnci | Sefydlog |
| 56 | Coed Pantydarren | Da |
| 57 | Chwarel Penlan | Da |
| 58 | Dyffryn Crawnon | Da |
| 59 | Crug Hywel (Table Mountain) a Darren | Da |
| 60 | Chwarel Blaen Onneu | Rhagorol |
| 61 | Gorsaf Clydach | Rhagorol |
| 62 | Chwarel Gilwern | Rhagorol |
| 63 | Craig Derlwyn | Da |
| 64 | Tirlithriad Blaen Taf | Da |
| 65 | Primrose Hill | Gwael |
| 66 | Pen Cerrig Calch | Da |
| 67 | Chwarel Crwcas | Da |
| 68 | Tremynfa | Da |
| 69 | Pantymaes | Da |
| 70 | Breinant | Sefydlog |
| 71 | Coed Duon | Da |
| 72 | Garn Goch | Rhagorol |
| 73 | Afon y waen | Rhagorol |
| 74 | Pwll y Wrach | Da |
| 75 | Corn Du a Phen Y Fan | Da |
| 76 | Ysgyryd Fawr | Da |

# Atodiad 3:

## Geirfa

CGHT – Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy

URhCN [IUNC] - Yr Undeb Rhyngwladol ar gyfer Cadwraeth Natur (Undeb Cadwraeth y Byd)

ARh – Adeilad Rhestredig

ACT – Asesiad Cymeriad Tirlun

CDLl – Cynllun Datblygu Lleol

APC – Awdurdod y Parc Cenedlaethol

CNC – Cyfoeth Naturiol Cymru

CAAA – Canolfan Addysg Awyr Agored

SGBRh – Safleoedd Geoamrywiaeth o Bwysigrwydd Rhanbarthol

HT – Hawliau Tramwy

HR – Heneb Restredig

GAS – Gwerthusiad Amgylcheddol Strategol


ACYP – Adroddiad Cyflwr y Parc

CCA – Cyfarwyddyd Cynllunio Ategol

SoDdGA – Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig



© Nigel Forster - Pen-y-Fal a'r Mynyddoedd Duon



Cyhoeddwyd gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ar ran y Bannau Brycheiniog.

Argraffwyd ar bapur wedi'i ailgylchu.

Er bod pob ymdrech wedi ei wneud i sicrhau bod cynnwys y canllaw hwn yn gywir, ni all Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb o gwbl am unrhyw wallau, anghywirdebau neu hepgoriadau , neu am unrhyw fater mewn unrhyw ffordd arall sy'n gysylltiedig â neu'n codi o gyhoeddi'r o hyn o'r wybodaeth hon. Cyhoeddir y canllaw hwn gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.

Ffonio: 01874 624437 E-bostio: enquiries@breconbeacons.org

Cedwir pob hawl. Matthew Scanlon (01874 620465)

Ni ddylai ddeunydd yn y cyhoeddiad hwn gael ei atgynhyrchu heb ganiatâd Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Hawlfraint

© 2015 Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.

Dylunio a argraffu llyfryn gan Pomegranate Creative Ltd.

www.pomegranatecreative.co.uk

Ffotograffiaeth : Awdurdod © Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog,

Darluniwyd gan Adrian Nelmes.



PARC CENEDLAETHOL BANNAU BRYCHEINIOG

BRECON BEACONS
NATIONAL PARK

© Nigel Forster - Bannau Brycheiniog